

**Y Cyngor  
Deintyddol  
Cyffredinol**

diogelu cleifion,  
rheoleiddio'r tîm deintyddol

# **Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015**



**Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol  
Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r Senedd yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd yr Alban yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac ati) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd y cyfrifon i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac ati) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Gorchymynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 14 Gorffennaf 2016.

SG/2016/29

HC I'w gadarnhau

© **Hawlfraint y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2016)**

Gellir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim (heblaw am logos yr Arfau Brenhinol, lle maent yn bresennol, a logos pob adran ac asiantaeth) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhychu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sydd â'r hawlfraint i'r deunydd a dylid nodi teitl y ddogfen. Pan nodir deunydd trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd y deilydd hawlfraint priodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn, dylech anfon e-bost i [information@gdc-uk.org](mailto:information@gdc-uk.org) neu ffonio 020 7167 6000.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

ISBN argraffu 9781474132657

ISBN y we 9781474132664

Rhif Adnabod 1005160407/16

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibrau wedi'u hailgylchu.

# Cynnwys

1. Diben statudol .....	6
2. Neges gan y Cadeirydd.....	7
3. Neges gan y Prif Weithredwr .....	10
4. Uchafbwyntiau 2015.....	13
5. Adolygiad Busnes 2015 .....	14
6. Adroddiad ystadegol a pherfformiad .....	21
7. Strwythur y Cyngor.....	47
8. Adroddiad ar dâl.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
9. Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol .....	58
10. Adolygiad ariannol.....	60
11. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr .....	66
12. Datganiad llywodraethu.....	67
13. Cyfrifon 2015.....	75
14. Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol .....	76
15. Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd .....	78
16. Cyfrif incwm a gwariant .....	81
17. Datganiad o'r sefyllfa ariannol.....	83
18. Datganiad llif arian .....	83
19. Datganiad o newidiadau i gronfeydd wrth gefn.....	86
20. Nodiadau i'r Cyfrifon.....	88
21. Cynghorwyr .....	124

# 1. Diben statudol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw rheoleiddiwr statudol dros 108,000 o aelodau'r tîm deintyddol ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys tua 41,000 o ddeintyddion a 67,000 o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol (DCPs) sy'n cynnwys nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol, hylenyddion deintyddol, technegwyr deintyddol, therapyddion deintyddol a therapyddion orthodontig.

**Ein diben:** Rydym am i gleifion a'r cyhoedd fod yn ffyddiog bod y driniaeth a dderbyniant yn cael ei darparu gan weithiwr deintyddol proffesiynol cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sy'n bodloni ein safonau. Os oes yna bryderon ynglŷn ag ansawdd y gofal neu'r driniaeth neu ymddygiad gweithiwr cofrestredig, byddwn yn ymchwilio ac yn cymryd camau gweithredu os yn briodol.

## Ein rôl yw:

- diogelu'r cyhoedd
- diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
- hyrwyddo a chynnal hyder yn y proffesiwn deintyddol
- hyrwyddo a chynnal ymddygiad a safonau proffesiynol priodol ymhlith aelodau'r proffesiynau hynny.

Rydym yn cyflawni ein rôl trwy ddefnyddio ein pwerau statudol i:

- gofrestru'r gweithwyr deintyddol proffesiynol hynny sy'n bodloni ei gofynion mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant, iechyd a chymeriad da. Dim ond y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni sy'n gallu ymarfer deintyddiaeth yn y DU
- sicrhau ansawdd hyfforddiant cyn cofrestru fel deintydd
- pennu safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer y tîm deintyddol
- ymchwilio i gwynion yn erbyn gweithwyr deintyddol proffesiynol ac, os yn briodol, cymryd camau trwy ein proses Addasrwydd i Ymarfer
- diogelu'r cyhoedd rhag ymarfer anghyfreithlon
- ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr deintyddol proffesiynol barhau i ddiweddarau eu sgiliau trwy ein gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Yn ogystal, rydym yn darparu'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol sy'n ceisio helpu cleifion a gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddefnyddio proses gyfryngu i ddatrys cwynion ynglŷn â gofal deintyddol preifat.

Wrth wneud hynny, rydym yn ceisio dangos ein gwerthoedd, sef:

**Tegwch:** Byddwn yn trin pawb yn deg

**Tryloywder:** Rydym yn agored ynglŷn â sut rydym yn gweithio a sut rydym yn gwneud penderfyniadau

**Ymatebolrwydd:** Rydym yn gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid

**Parch:** Rydym yn trin gweithwyr deintyddol proffesiynol, ein partneriaid a'n gweithwyr cyflogedig â pharch

## 2. Neges gan y Cadeirydd

### ***Newid ffocws rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol***

Mae prif ddiben rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ei drefniadaeth, ei ffocws a'i ddulliau gwaith, ei gost a'i effeithiolrwydd wedi bod yn destun cryn drafod dros y degawd diwethaf. Dadleuodd yr hen Gyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (yr Awdurdod Safonau Proffesiynol erbyn hyn) yn "*Right-touch Regulation*" o blaid system sy'n canolbwyntio ar nodi a rheoli risgiau a'r gallu i ymateb mewn sawl ffordd wahanol i risgiau o wahanol raddau o ddifrifoldeb. Cafodd y system hon ei harchwilio gan y Llywodraeth Glymblaid yn ei Phapur Gwyn, "*Enabling Excellence*", a oedd yn ceisio hyrwyddo systemau rheoleiddio symlach a rhatach ac ehangu cwrpas rheoleiddio proffesiynol dan arweiniad canolog.

Treuliodd Comisiwn y Gyfraith sawl blwyddyn yn gweithio gyda rheoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar Fil drafft a fyddai'n diweddarau ac yn uno'r ddeddfwriaeth sylfaenol helaeth sy'n llywodraethu rheoleiddwyr cenedlaethol. Ond, fel y cydnabu'r Llywodraeth yn ei hymateb i Gomisiwn y Gyfraith, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015, roedd llawer o bethau wedi newid yn ystod yr amser a gymerodd hi i Gomisiwn y Gyfraith ddatblygu ei gynigion. Pan ddaeth hi i'r amlwg bod cleifion mewn sawl ysbyty aciwt mawr a phreswylwyr mewn cartrefi i bobl hŷn a phobl ag anawsterau dysgu wedi bod yn cael eu cam-drin, gofynnwyd cwestiynau difrifol ynglŷn ag effeithiolrwydd y gwaith o reoli contractau yn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol, rheoleiddio proffesiynol, rheoleiddio systemau ac arolygu o safon a'r cydweithredu annigonol rhyngddynt.

Er nad yw'r Llywodraeth wedi datblygu Bil drafft Comisiwn y Gyfraith ac er ei bod wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer adolygiad ac ymgynghoriad pellach, mae wedi ei gwneud hi'n glir mai diogelu cleifion a'r cyhoedd yw prif ddiben rheoleiddio.

Nid yw deintyddiaeth wedi bod yn flaenllaw yn y drafodaeth hon. Mae'r ffocws wedi bod ar feddygaeth, nyrsio a gofal cymdeithasol yn bennaf. Ond mae'r egwyddor mai prif amcan rheoleiddio yw diogelu cleifion yr un mor berthnasol yn y maes hwn ag ydyw mewn proffesiynau gofal iechyd eraill. Felly, mae hyn wedi bod yn sbardun allweddol i'r rhaglen newid fawr y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi bod yn ei datblygu o dan y Cyngor presennol.

### ***Mae 2015 yn cynrychioli cam mawr ymlaen i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol***

Mae newid ar raddfa mor fawr yn gallu bod yn boenus, a bydd yn parhau felly ar adegau. Mae dod yn fath newydd o sefydliad yn ymrwymiad tymor hir; mae'n cymryd misoedd a blynyddoedd yn hytrach nag wythnosau. Mae angen diwylliant newydd, meddylfryd newydd a chysylltiadau newydd neu ddiwygiedig o ran atebolrwydd, sy'n briodol i reoleiddiwr budd y cyhoedd. Mae'r gwaith o gyflwyno'r diwylliant newydd hwnnw eisoes wedi cychwyn.

Yn 2015 ac yn gynnar yn 2016, cwblhawyd y broses o ad-drefnu'r sefydliad, yn enwedig ei arweinyddiaeth. Treuliodd cryn amser ac egni yn diffinio a gweithredu ein rhaglen waith ein hunain i fynd i'r afael â'r diwylliannau a'r systemau diffygiol a nodwyd yn ymchwiliad y Professional Services Authority (PSA) i ddiwyddiad chwythu'r chwiban hanesyddol, a

gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015. Er y byddai llawer o'r rhaglen hon wedi digwydd beth bynnag, rhoddodd adroddiad y PSA fwy o bwysau arnom i gyflawni'r gwaith fel mater o frys. Nid yw rheoleiddwyr yn gweithredu mewn gwagle; ni allwn anwybyddu newidiadau mawr mewn cymdeithas. Bydd yna gyfle pwysig yn ddiweddarach eleni i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er lles cleifion a gweithwyr deintyddol proffesiynol i'r dyfodol.

Eleni, byddwn yn mynd ati hefyd i gyflwyno ein cynllun, "Cleifion, Gweithwyr Proffesiynol, Partneriaid a Pherfformiad". Dyma ein hymrwymiad tair blynedd i ganolbwyntio mwy ar anghenion a gofynion cleifion, i fod yn fwy tryloyw ac yn atebol am ein penderfyniadau a'n gweithredoedd ac i fod yn fwy agored i gynnwys pobl eraill yn y gwaith o lywio ein cynlluniau a'n polisiau a'u hesbonio i amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan waith y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cymerodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gamau enfawr ymlaen yn 2015, gan osod y seiliau ar gyfer datblygiadau pellach yn y dyfodol.

### ***Mae'n rhoi man cychwyn i ni wneud y newidiadau systemig sydd eu hangen***

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol am weld system reoleiddio sy'n diogelu cleifion a'r cyhoedd, sy'n gymesur ac yn deg i weithwyr cofrestredig, sy'n dryloyw a chost-effeithiol ac sy'n pwysleisio gweithio mewn partneriaeth â'r proffesiwn ac eraill i gymhwyso dysgu – nid yn unig pan fo pethau'n mynd o'i le ond hefyd mewn perthynas â rhannu arfer gorau a ffyrdd arloesol o weithio. Byddai hyn yn welliant sylweddol ar y system bresennol, sy'n canolbwyntio gormod ar gosbau yn hytrach na dysgu. Rydym am weithio gydag eraill i ymwreiddio dysgu yn ein system reoleiddio.

Mae hyn oll yn darparu seiliau mwy cadarn o lawer i sbarduno'r newidiadau mwy sylfaenol hyd yn oed sydd angen eu gwneud i'r ffordd mae gwaith rheoleiddio'n cael ei gyflawni. Fel arall, efallai y byddai'r system bresennol yn methu o dan bwysau cynyddol system addasrwydd i Ymarfer sy'n gostus, yn araf a seiliedig ar wrthdaro sy'n cael ei harwain gan brosesau deddfol sy'n deillio o ddeddfwriaeth.

### ***Mae Addasrwydd i Ymarfer yn bwysig ac mae lle iddo***

Mae mwy a mwy o gwestiynau'n codi ynglŷn â'r ffocws gorfodol hwn ar Addasrwydd i Ymarfer ac ai honno yw'r ffordd fwyaf effeithiol a chymesur o sicrhau diogelwch y cyhoedd yn y tymor hir. Wrth gwrs, pan fo pethau'n mynd o'i le, mae'n bwysig bod gan gleifion rywle i droi. Ni ddylai unrhyw glaf gael triniaeth gan weithiwr proffesiynol y mae ei ymddygiad neu ei berfformiad mor ddiffygiol fel bod y claf mewn perygl o gael niwed sylweddol.

### ***Mae'n bryd i ni newid pethau trwy weithio gydag eraill***

Dylai rheoleiddio da bwysleisio'r ffocws a'r ymdrech ar hyrwyddo ac ysgogi ymddygiad cadarnhaol cyn i niwed gael cyfle i ddigwydd. Dylai bwysleisio gweithio gydag eraill – yn enwedig y proffesiwn a'r system addysg – i gydnabod a rhannu arfer da.

Dylai geisio helpu'r proffesiwn i ddeall cleifion a'u disgwyliadau yn well. Dylai annog rhannu dysgu pan fo pethau'n mynd o'i le er mwyn ei gwneud hi'n llai tebygol y bydd pethau'n mynd



o'i le yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos cryfaf dros newid ffocws y system reoleiddio bresennol fel ei bod yn well o ran atal niwed i'r cyhoedd cyn iddo ddigwydd.

Mae'n bryd i sefydliadau a chyrrff – gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli'r proffesiwn – edrych i'r dyfodol yn hytrach nag i'r gorffennol. Rydym yn gwybod y bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gryfach os bydd yn datblygu'r materion hyn ar y cyd ag eraill, yn hytrach nag ar ei ben ei hun.

### ***Deall anghenion a disgwyliadau cleifion yn well***

Gyda'n gilydd, mae angen i ni ofyn amryw o gwestiynau pwysig. Sut ydym ni'n gwybod a yw cleifion yn derbyn y gofal gorau? A yw cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn? A yw cleifion yn glir ynglŷn â'r hyn sy'n cyfrif fel gofal a thriniaeth dda? Ydyn nhw'n gwybod sut i gwyno, ac wrth bwy, os na fyddant yn derbyn gofal o'r safon y maent yn ei ddisgwyl? A yw cwynion yn cael eu rheoli'n dda? A yw gwersi'n cael eu dysgu? A yw'r proffesiwn yn dod o hyd i ffyrdd newydd o wella canlyniadau a gwasanaethau yn gyson?

Mae hyn yn arbennig o bwysig; er ein bod yn canolbwyntio ar ddiogelu cleifion, efallai y bydd hyn yn cynnig atebion o ran lleihau costau rheoleiddio hefyd.

### ***Sy'n dod â ni at berfformiad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei hun***

Ond dyw hynny ddim yn golygu y gallwn ni esgeuluso'r cyfrifoldeb dros ein perfformiad ein hunain, yn enwedig o ran stiwardiaeth y cyllid a roddir i ni. Mae'r Cyngor a'r Tîm Gweithredol, sydd o dan arweinyddiaeth newydd, yn gweithio i sicrhau ffocws newydd ar werth am arian a thryloywder ariannol. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod ein cyllid yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Mae hynny'n rhan bwysig o'r gwaith o gael pobl i ymddiried ynom ni, ac mewn rheoleiddio, unwaith eto.

Anaml y mae rheoleiddio'n boblogaidd ymhlith y rhai sy'n cael eu rheoleiddio. Os yw rheoleiddio'n boblogaidd, fel arfer mae hynny'n arwydd bod rheoleiddwyr yn osgoi gwneud penderfyniadau anodd. Ond os yw'n cael ei wneud yn dda, mae'n gallu bod yn bwysig ac ennyn hyder y cyhoedd yn y system.

Rwy'n falch iawn o'r gwaith mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ei wneud ac mae'n bleser cael arwain sefydliad sydd â gwaith mor bwysig i'w wneud.

**William Moyes**  
**Cadeirydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol**

### 3. Neges gan y Prif Weithredwr

Mae'n rhaid i reoleiddio effeithiol adlewyrchu'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo, ac un o brif themâu ein gwaith y llynedd oedd yr ymdrech i ddeall profiad cleifion yn well a safbwynt y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes deintyddiaeth.

Mae gwaith yn parhau ar draws yr holl feysydd rydym yn gyfrifol amdanynt:

- sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant cyn cofrestru
- safonau ac arweiniad
- y gofrestr ddeintyddol
- Addasrwydd i Ymarfer ac ymarfer anghyfreithlon
- DPP

Cafodd syniadau eu profi a'u datblygu trwy'r paneli ar-lein ar gyfer cleifion a'r cyhoedd, ac rydym wedi ymgysylltu mwy â gweithwyr proffesiynol a phartneriaid mewn digwyddiadau a gweithdai. Mae ein gwaith ar gynlluniau peilot y GIG yn ein helpu ni i ddeall y system gwyno yn well.

Er mwyn rheoleiddio'n effeithiol, mae angen corff rheoleiddio effeithiol ac effeithlon, ac nid yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi bod yn hunanfodlon. Y llynedd, cyflwynwyd rhaglen newid sefydliadol arwyddocaol i helpu i wella ein perfformiad. Cafodd y rhaglen, a oedd yn cynnwys tua 30 o brosiectau y nodwyd eu bod yn hanfodol i helpu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i wella fel sefydliad, ei goruchwyllo gan y tîm gweithredol.

Mae'r rhaglen wedi sicrhau newidiadau a gwelliannau pwysig i'n diwylliant ac i'r ffordd rydym ni'n gweithio; gan gynnwys ein llywodraethu a phrosesau megis sefydlu'r Bwrdd Polisi ac Ymchwil a'r Pwyllgor Penodiadau newydd. Rydym yn cydnabod mai dim ond yn y tymor hir y gallwn ni gyflawni'r nod o ddod yn sefydliad perfformiad uchel, ac rydym yn parhau i gynllunio a gwneud gwaith i gyflawni hyn.

Yn dilyn adroddiad Francis, rydym wrthi'n cyflwyno dyletswydd gonestrwydd broffesiynol ar gyfer deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol: rhwymedigaeth i fod yn agored a thryloyw pan fo rhywbeth yn mynd o'i le gyda gofal. Mae mwy o waith i'w wneud o hyd ac rydym yn gweithio gyda'r proffesiwn i roi'r ddyletswydd bwysig hon ar waith.

Y llynedd, aethom ati i ganolbwyntio ar ein perfformiad, yn enwedig mewn perthynas ag Addasrwydd i Ymarfer. Datblygwyd model rhagfynegi gwell i'n helpu ni i ragweld nifer yr achosion Addasrwydd i Ymarfer y gallwn ni eu disgwyl dros yr 18 mis nesaf. Dydyn ni ddim am ddychwelyd i'r sefyllfa y cawsom ein hunain ynddi rai blynyddoedd yn ôl pan welodd y sefydliad gynnydd mawr yn nifer y cwynion, a wnaeth fwy na dyblu, gan arwain at ôl-groniad o achosion. Bydd gwell dealltwriaeth o'n perfformiad a'r lefelau y mae angen i ni eu cyrraedd o ran galw yn ein helpu ni i gynllunio, rheoli a chyflawni ein gwaith yn fwy effeithiol.

Mae'r model wedi'i roi ar waith yn llawn bellach a bydd yn cael ei fonitro'n agos i ragweld ein lefelau gweithgaredd achosion dros yr 18 mis nesaf. Cafodd adnodd rhagfynegi diwygiedig ar gyfer rhagweld incwm cofrestru ei roi ar waith yn llwyddiannus hefyd.

Fis Hydref diwethaf, lanswyd llinell gymorth gyda Public Concern at Work i roi cyngor i ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar sut i fynegi pryder, yn ogystal â gwybodaeth newydd a gyhoeddwyd ar ein gwefan. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y llinell wedi derbyn 78 o alwadau, a nodwyd 13 o achosion a hunangyfeiriwyd o bosibl.

Fel Cofrestrydd, rwy'n gweld llawer o'r gwaith rydym yn ei wneud i sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant deintyddol ar gyfer yr holl broffesiynau rydym yn eu cofrestru. Mae hyn yn cael ei anwybyddu'n aml, ond mae'n swyddogaeth graidd bwysig ar gyfer perfformiad tymor

hirach ym maes deintyddiaeth. Mae'n hollbwysig bod myfyrwyr yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu hyfforddiant, gan ennill y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i gael gyrfaoedd llwyddiannus mewn deintyddiaeth.

Aethom ati i gyhoeddi'r ail adolygiad blynyddol o addysg a hyfforddiant, a gafodd dderbyniad gwresog gan randdeiliaid ac a ddatgelodd fod y rhan fwyaf o'r rhaglenni'n gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r Safonau Addysg a gyflwynwyd yn 2013. Dangosodd yr adroddiad hwn lle'r oedd pethau'n gweithio'n dda a lle'r oedd angen gwneud gwelliannau ar draws rhaglenni. Ar gyfer y rhaglenni hynny a oedd angen gwella mewn sawl maes, fel arfer bydd ail arolygiad yn cael ei gynnal. Wrth adolygu adroddiadau ail arolygiad, mae hi wedi bod yn galonogol gweld y gwelliannau sylweddol y gall rhaglen eu gwneud yn y flwyddyn rhwng arolygiad ac ail arolygiad.

Rydym hefyd wedi sefydlu'r Bwrdd Rhaglen Rheoleiddio Gwasanaethau Deintyddol gyda NHS England, y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a Healthwatch England. Diben y bwrdd yw archwilio system gyffredinol rheoleiddio deintyddol yn Lloegr i sicrhau ei bod yn gydgyssylltiedig, yn gyson, yn osgoi gorgyffwrdd ac yn rhannu gwybodaeth am risg a materion eraill yn effeithiol.

Cyhoeddodd y bwrdd ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2015, a oedd yn amlinellu saith maes gwelliant allweddol; gan gynnwys defnyddio data a diffinio system trafod cwynion fwy effeithiol a fydd yn gwneud rheoleiddio deintyddol yn fwy cydlynol, syml ac effeithiol.

Mae ffocws ar werth am arian wedi bod yn bresennol ym mhob agwedd ar ein gwaith. Mae angen i ni fod yn atebol ac yn dryloyw, ac esbonio ein penderfyniadau yn llawn, yn enwedig mewn perthynas â chyllid. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n partneriaid i ddod yn sefydliad mwy tryloyw ac atebol a fydd o fudd i'r cyhoedd, cleifion a'r tîm deintyddol.

Er bod llawer o bethau cadarnhaol, hoffwn dynnu'ch sylw at ddau adroddiad a gyhoeddwyd gan ein corff goruchwyllo, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), yn 2015. Y cyntaf o'r rhain oedd adolygiad perfformiad a ddaeth i'r casgliad mai dim ond 17 o'r 24 o safonau ar gyfer rheoleiddio proffesiynol yr oeddem yn eu bodloni. O ystyried ein huchelgais i fod yn rheoleiddiwr sy'n perfformio i safon uchel, nid oedd y lefel hon o berfformiad yn ddigon da.

Cyflawnwyd pob un o'r safonau ar gyfer safonau ac arweiniad ac addysg a hyfforddiant, a phob un ond un o'r safonau ar gyfer cofrestru. Fodd bynnag, dim ond dwy safon yn ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer a gyflawnwyd, ac ni lwyddodd y PSA i ddod i gasgliad ynglŷn â dwy safon arall.

Un o'r prif resymau dros y dirywiad mewn perfformiad oedd y ffaith y bu cynnydd o 120% mewn dwy flynedd yn nifer y cwynion a gyflwynwyd i ni: roedd y cynnydd mewn llwyth gwaith yn ormod i'n systemau a'n prosesau. Mae rhai newidiadau mawr sydd wedi'u gwneud ers yr adroddiad yn dechrau dwyn ffrwyth, ond rydym yn dal i geisio sbarduno gwelliant.

Cafodd ail adroddiad PSA ei gyhoeddi tua diwedd y flwyddyn, yn ymwneud â digwyddiad chwythu'r chwiban hanesyddol. Roedd cynnwys yr adroddiad hwnnw yn ddifrifol iawn. Mae wedi bod yn gyfle hefyd i ystyried yr argymhellion fel y gallwn ni ddysgu o ddigwyddiadau o'r fath i leihau'r risg y bydd y pethau hyn yn digwydd eto. Er ein bod yn effro ac yn ymatebol i drefniadau chwythu'r chwiban, ac yn ei gymryd o ddifrif, yn y dyfodol rydym ni am i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol fod yn sefydliad lle na ddylai fod angen chwythu'r chwiban. Un peth y mae angen i ni ei wneud i sicrhau bod yr uchelgais hon yn cael ei chyflawni yw cynnal sgysiaau adeiladol ymysg ein gilydd a bod yn gyfforddus yn herio ein gilydd os byddwn ni'n teimlo bod rhywbeth o'i le.

Archwiliodd y Cyngor bob canfyddiad yn ofalus i bennu pa gamau pellach oedd angen eu cymryd, yn ogystal â'r newidiadau a wnaed eisoes yn ystod y rhaglen ddiwygio.

Ers cyhoeddi'r adroddiad, rydym ni wedi gwneud mwy o ymdrech i fod yn dryloyw yn y camau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Er mwyn sicrhau dyfodol da i ofal iechyd, mae angen i ni ganolbwyntio mwy ar y claf a bod yn fwy effeithlon - ac rydym yn cydnabod mai dim ond trwy weithio gyda chleifion, y proffesiwn a'n partneriaid y gallwn ni wella ein perfformiad.

**Ian Brack**  
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**

## 4. Uchafbwyntiau 2015

Yn ystod 2015, gwnaed llawer iawn o waith i baratoi'r sefydliad ar gyfer lansio *Cleifion, Gweithwyr Proffesiynol, Partneriaid a Pherfformiad* sy'n amlinellu ein cynlluniau rhwng 2016 a 2019.

Mae'r gwaith a wnaed yn ystod 2015 yn perthyn i un o ddwy ffrwd yn fras. Yn gyntaf, cyflwynwyd rhaglen sylweddol o waith gwella mewdol (cyfeirir ati fel y Rhaglen Newid Sefydliadol) i fynd i'r afael â rhai materion sylfaenol yn ein strwythur. Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i ddarparu elfen 'perfformiad' y strategaeth newydd.

Yn ystod y flwyddyn, aethom ati i adolygu ein ffyrdd o weithio ledled y sefydliad a gweddnewid ein prosesau llywodraethu, cyfathrebu, rheoli risg, rheoli perfformiad ac Addaswydd i Ymarfer.

Cafodd yr angen am adolygiad eang ei bwysleisio yn rhai o'r adroddiadau ar ein perfformiad gan y PSA. Yn dilyn gwaith a gyflawnwyd dros y flwyddyn, mae prosesau newydd bellach ar waith ym mhob un o'r meysydd hyn a fydd yn helpu i osod y seiliau ar gyfer gwell perfformiad dros gyfnod y strategaeth.

Yn ail, cyflawnwyd gwaith paratoi ar gyfer rhai prosiectau mawr a ddarperir ar draws y pedair elfen.

Galluogodd hyn ni i gynllunio ar gyfer amryw o fentrau hollbwysig y byddwn yn eu rhoi ar waith yn ystod 2016, gan gynnwys lansio ein cynllun peilot Datblygiad Proffesiynol Parhaus, rhoi archwilwyr achosion ar waith i foderneiddio'r broses Addaswydd i Ymarfer a chyflwyno ceisiadau cofrestru ar-lein. Mae mwy o fanylion am y prosiectau hyn yn adran 5.

Rydym ni hefyd wedi cyfrannu at gyhoeddi'r adroddiad '*Future of Dental Service Regulation*', gan weithio gyda chyrff cenedlaethol eraill megis y CQC ac NHS England sydd â buddiant yn y gwaith o adolygu a gwella'r sector rheoleiddio deintyddol, a bydd hwn yn parhau i fod yn fforwm pwysig ar gyfer gwneud cynnydd ar amryw o'n nodau strategol yn ystod y strategaeth gorfforaethol.

Yn ogystal, rydym ni wedi gweithio i lansio'r llinell gymorth Public Concern at Work (PCAW) ac wedi paratoi ar gyfer lansio ein gwefan newydd. Bydd y ddwy broses hyn yn helpu hygyrchedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol dros y blynyddoedd i ddod.

## 5. Adolygiad Busnes 2015

### 1.1 Pwy ydym ni

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn rheoleiddio ym maes gofal iechyd ledled y DU, gyda chylch gwaith sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae ganddo dros 320 o staff ac mae'n cael ei oruchwylio gan Gyngor o 12 o aelodau sy'n cynnwys chwe aelod lleig a chwe gweithiwr deintyddol proffesiynol.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein gwaith – Deddf Deintyddion 1984 – yn pennu amryw o amcanion sy'n cynnwys: diogelu'r cyhoedd, hyrwyddo a chynnal hyder yn y proffesiwn deintyddol a hyrwyddo a chynnal ymddygiad a safonau proffesiynol priodol ymhlith aelodau'r proffesiynau hynny.

Rydym yn cynnal y cofrestri proffesiynol fel y gall cleifion a'r cyhoedd fod yn ffyddiog bod y driniaeth a dderbyniant yn cael ei darparu gan ddeintydd neu weithiwr deintyddol proffesiynol cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar y sgiliau technegol a phersonol angenrheidiol.

Rydym ni hefyd yn pennu safonau ar gyfer darparwyr hyfforddiant deintyddol cyn cofrestru (ac yn gweithio tuag at system sicrhau ansawdd ar gyfer hyfforddiant arbenigol), yn ymchwilio i gwynion yn erbyn gweithwyr deintyddol proffesiynol ac yn cymryd camau cymesur trwy ein proses addasrwydd i Ymarfer.

Mae ein hadroddiad diweddar, *Cleifion, Gweithwyr Proffesiynol, Partneriaid a Pherfformiad*, yn rhoi mwy o fanylion am y ffordd y byddwn yn parhau i roi lle canolog i gleifion ym mhopeth a wnawn rhwng 2016-2019, yn cefnogi'r proffesiwn ac yn gweithio gyda'n partneriaid er mwyn dod yn rheoleidiwr sy'n perfformio i safon uchel y mae cleifion, gweithwyr deintyddol proffesiynol a'r cyhoedd yn gallu ymddiried ynddo.

Mae gennym bum cyfarwyddiaeth dan arweiniad cyfarwyddwyr sy'n aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol (EMT).


Mae'r sefydliad yn cael ei oruchwylio gan Gadeirydd anweithredol a Chyngor (mae mwy o wybodaeth yn adran 7).

Mae'r Tîm rheoli'n gyfrifol am:

- nodi risgiau strategol a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel briodol gydag atebolrwydd clir;
- nodi a gwerthuso risgiau wrth iddynt ddigwydd o fewn swyddogaethau a chyfarwyddiaethau
- adolygu ac adrodd ar risgiau i'r Cyngor ac agweddau eraill ar y model llywodraethu;
- adrodd i'r Cyngor ar y gwaith o reoli risgiau'n effeithiol fel y maent yn berthnasol i ddatblygiad polisi, perfformiad gweithredol a'r defnydd o adnoddau;
- llunio a gweithredu'r polisi rheoli risg a sicrhau arferion rheoli risg da;
- sicrhau bod y cofrestri risg strategol, gweithredol a phrosiect yn gyfredol, yn berthnasol ac yn gynhwysfawr.

Mae'r cyfarwyddiaethau fel a ganlyn: Llywodraethu ac AD, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Cofrestru a Rhagoriaeth Weithredol, Addasrwydd i Ymarfer a Strategaeth. Maent i gyd yn cael eu goruchwylio gan Brif Weithredwr a Chofrestrydd.

Ffigur 1: Siart sefydliadol



## 1.2 Cynllun Busnes 2015 – crynodeb o gyflawniadau

Dros yr ychydig Flynyddoedd diwethaf, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ein hamcan o ddod yn sefydliad mwy effeithlon sy'n perfformio i safon uchel.

2015 oedd blwyddyn olaf ein strategaeth gorfforaethol tair blynedd, *Diogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio'r tîm deintyddol*, a roddodd fanylion am y ffordd mae rheoleiddio effeithiol yn gwella ffydd y cyhoedd mewn deintyddiaeth.

Ochr yn ochr â'r cynllun busnes, roedd y Rhaglen Newid Sefydliadol eang a fu ar waith o fis Tachwedd 2014 tan fis Tachwedd 2015. Roedd y rhaglen – a oruchwyliwyd gan y Tîm Rheoli Gweithredol – yn cynnwys cyfres o 30 o brosiectau a nodwyd fel rhai hollbwysig i alluogi'r sefydliad i wella. Roedd pedair thema'n rhedeg trwy'r rhaglenni: arweinyddiaeth a rheoli perfformiad, systemau a phrosesau, gwell swyddogaeth gyfathrebu a chyflwyno strwythur sefydliadol sy'n addas i'r diben.

Er i'r rhaglen gyflawni newidiadau a gwelliannau hanfodol, cydnabyddir mai dim ond dros dymor hirach y gellir cyflawni'r amcan o ddod yn sefydliad sy'n perfformio i safon uchel.

Roedd gan y cynllun busnes chwe her allweddol. Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynnydd yn erbyn pob her.

O ganlyniad i flaenoriaethu'r rhaglen hon, penderfynwyd y bydd rhywfaint o'r gwaith yng nghynllun busnes 2015 yn cael ei drosglwyddo i gynllun 2016. Mae gweithgareddau nodedig o dan y rhaglen wedi'u cynnwys yn y crynodeb o'n cynnydd yn erbyn cynllun busnes 2015 ac wedi'u halinio ag amcanion strategol a heriau allweddol.

Heriau allweddol Cynllun Busnes 2015	Beth rydym ni wedi'i wneud i ateb yr her
<p>1. Gwella ein perfformiad cyffredinol trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fod yn fwy effeithlon o ran rheoli'r cynnydd yn nifer y cwynion sy'n cael eu gwneud yn erbyn y tîm deintyddol.</li> <li>• Defnyddio ein data'n well er mwyn deall newidiadau yn yr amgylchedd iechyd a rhagweld ac adnabod risgiau allweddol i gleifion.</li> <li>• Archwiliadau cydymffurfiaeth i wella'r broses a sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno model rhagfynegi mwy cadarn i'n galluogi i ragweld lefel y gwariant i reoli gweithrediadau Addasrwydd i Ymarfer yn fwy effeithlon.</li> <li>• Rydym wedi gwella ansawdd ein hadroddiadau perfformiad a gwybodaeth reoli trwy ddatblygu ein system adrodd data.</li> <li>• Cynnal rhaglen barhaus i wella Addasrwydd i Ymarfer gydol y flwyddyn, gyda ffocws ar fynd i'r afael â'r gwelliannau blaenoriaeth uchel a nodwyd gan y PSA a'n swyddogaeth cydymffurfio ac archwilio ein hunain.</li> <li>• Cyflwyno proses frysbenneu ddiwygiedig i'n helpu ni i fynd i'r afael ag achosion Addasrwydd i Ymarfer yn fwy effeithlon.</li> <li>• Sefydlu'r Grŵp Sicrhau Ansawdd i oruchwylio'r penderfyniadau a wneir yn y swyddogaeth Addasrwydd i Ymarfer. Cynhaliwyd archwiliadau cydymffurfiaeth ar 900 o achosion byw i werthuso ansawdd y penderfyniadau. Cynhyrchwyd wyth adroddiad, a gwnaed 88 o argymhellion.</li> <li>• Mae'r archwiliadau'n craffu ar bum agwedd wahanol ar ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer; cywirdeb (data), cydymffurfiaeth â gweithdrefnau a chanllawiau gweithredol, ansawdd gwasanaethau cwsmeriaid, ansawdd penderfyniadau ac amseroldeb</li> <li>• Roedd y rhan fwyaf o'r materion yn deillio o'r archwiliadau yn ymwneud â'r angen i wella amseroldeb, ond gwelwyd perfformiad cryf yn ansawdd penderfyniadau, sy'n faes risg uchel i reoleiddwyr yn draddodiadol.</li> </ul>



Heriau allweddol Cynllun Busnes 2015	Beth rydym ni wedi'i wneud i ateb yr her
<p>2. Gwneud newidiadau sy'n gwella ein gwasanaeth proffesiynol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Paratoi ar gyfer y newidiadau cyfreithiol i brosesau Addasrwydd i Ymarfer trwy gyflwyno archwilwyr achosion i wella penderfyniadau.</li> <li>• Paratoi i gyflwyno gwell Datblygiad Proffesiynol Parhaus</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu'r broses i recriwtio ac ymgorffori archwilwyr achosion i'n helpu i drafod achosion Addasrwydd i Ymarfer yn fwy effeithiol. Mae'r newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i gyflwyno'r broses wedi'u gwneud a bydd archwilwyr achosion yn dechrau gweithio tua diwedd 2016. Mae mwy o fanylion am archwilwyr achosion ar dudalen 19.</li> <li>• Paratoi i gyflwyno gwell Datblygiad Proffesiynol Parhaus trwy baratoi cynllun peilot. Dechreuodd y cynllun peilot yn gynnar yn 2016. Mae mwy o fanylion ar dudalen 19.</li> </ul>
<p>3. Cydweithredu â gweithwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau eraill i rannu gwybodaeth ac arfer gorau er mwyn atal niwed i gleifion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddi data cwynion gyda phartner ymchwil allanol a helpodd ni i nodi ffyrdd y mae ein data'n ein helpu ni i ddysgu mwy am y rhesymau dros gwynion yn y dyfodol.</li> <li>• Cynnal cynllun peilot gyda Thimau Ardal Leol dethol y GIG i sicrhau bod achosion o bryder lefel isel yn cael eu datrys yn lleol.</li> <li>• Cynnal adolygiad cynhwysfawr o gofrestru i baratoi ar gyfer gwahanol newidiadau sy'n dod i rym yn 2016, gan gynnwys cyflwyno indemniad a rhannu mwy o wybodaeth gyda rheoleiddwyr iechyd Ewropeaidd.</li> <li>• Cydweithredu â rheoleiddwyr proffesiynol a systemau eraill yn y DU, gan gynnwys y Bwrdd Rhaglen Rheoleiddio Gwasanaethau Deintyddol. Mae hwn yn weithgor o sefydliadau cenedlaethol o bwys sy'n cydweithredu i adolygu dyfodol rheoleiddio gwasanaethau deintyddol.</li> </ul>
<p>4. Sicrhau ein bod yn dangos effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd wrth gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu ein prosesau hyd at y cam cyfarfod pwyllgor, gan nodi cyfleoedd i wella effeithiolrwydd y Pwyllgor Ymchwilio.</li> <li>• Gweithredu prosiect gyda'r nod o leihau nifer y diwrnodau gwrandawiadau, lleihau costau erlyniadau a gwrandawiadau a chynyddu cydweithrediad â sefydliadau amddiffyn.</li> <li>• Cyflwyno fframwaith rheoli risg newydd i lywio ein penderfyniadau wrth gyflawni dyletswyddau rheoleiddio.</li> <li>• Datblygu llwyfan ar-lein i wneud cais i ymuno â'r gofrestr, a fydd yn cael ei lansio yn 2016</li> <li>• Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n trefniadau llywodraethu, gan arwain at strwythur sefydliadol diwygiedig a rhoi prosesau newydd ar waith.</li> </ul>

Heriau allweddol Cynllun Busnes 2015	Beth rydym ni wedi'i wneud i ateb yr her
<p>5. Gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid allweddol i gael mwy o fudd o'u hadborth ac i ddeall pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt gan eu rheoleiddiwr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i elwa ar gytundebau rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill a chynnal cyfarfodydd strategol gyda gwahanol reoleiddwyr proffesiynol a systemau a chyrrff iechyd cysylltiedig ar draws y pedair gwlad.</li> <li>Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n swyddogaeth gyfathrebu a arweiniodd at ddatblygu strategaeth gyfathrebu newydd. Cafodd y strategaeth hon ei lansio yn gynnar yn 2016 ac mae'n amlinellu ein cynlluniau ar gyfer ymgysylltu allanol effeithiol.</li> </ul>
<p>6. Parhau i werthfawrogi a helpu ein pobl i ymateb i ofynion heriol sy'n newid o hyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu rhaglen arweinyddiaeth a datblygu i uwch reolwyr.</li> <li>Cyflwyno strwythur talu, polisi cydnabyddiaeth a chynllun arfarnu newydd, gan hyrwyddo diwylliant o berfformio i safon uchel.</li> <li>Cwblhau'r gwaith o ailddatblygu 37 Wimpole Street.</li> <li>Cyflwyno gweithgor cydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio pennaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth i barhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff a rhoi lle canolog i arfer gorau mewn perthynas â chydraddoldeb yn ein holl waith.</li> </ul>

Fel yr amlinellir uchod, mae rhai mentrau yng nghynllun busnes 2015 wedi'u trosglwyddo i gynllun 2016. Y prif resymau dros drosglwyddo elfennau o gynllun 2015 i gynllun 2016 oedd:

- yr angen i flaenoriaethu prosiectau a gyflwynwyd fel rhan o'r rhaglen newid sefydliadol (ni ragwelwyd pob un o'r prosiectau hyn wrth ddrafftio cynllun 2015);
- yr angen i ddisgwyl am benodiad uwch reolwyr i arwain y gwaith o ddarparu mentrau allweddol mewn gwahanol rannau o'r busnes.

Mae gweithgareddau nodedig yn 2015 lle mae'r gwaith darparu yn parhau yn 2016 yn cynnwys:

- rhoi'r strategaeth gyfathrebu a adolygwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2016 ar waith
- sicrhau bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn hygyrch ac yn ymatebol i gyfathrebiadau gan randdeiliaid
- cynnal ymarfer sganio'r gorwel blynyddol i ragweld newidiadau rheoleiddio yn y dyfodol a'u heffaith
- rhoi'r cynllun gweithredu'r arolwg staff ar waith
- parhau i wneud gwelliannau i'r broses Addasrwydd i Ymarfer mewn ymateb i adroddiadau'r PSA
- gwaith pellach ar wneud newidiadau i'n prosesau llywodraethu yn dilyn newidiadau a wnaed eleni
- mireinio a darparu ein rhaglen bolisi i gefnogi ein map ffordd newydd

## Astudiaethau achos y cynllun busnes

Er mwyn darparu manylion ychwanegol am rai o brosiectau pwysig y llynedd, dyma ambell astudiaeth achos.

### ARCHWILWYR ACHOSION

Buom yn parhau gyda'r gwaith o osod y seiliau a chefnogi'r broses ddeddfwriaethol i gyflwyno archwilwyr achosion i'n proses Addasrwydd i Ymarfer. Rydym wedi cyfarfod â rheoleiddwyr eraill, mapio prosesau'r dyfodol i nodi arfer gorau a datblygu ein gofynion ar gyfer y cyfnod nesaf, sef rhoi archwilwyr achosion ar waith erbyn mis Tachwedd 2016. Dyma fanteision disgwylidig cyflwyno archwilwyr achosion:

- bydd yn sicrhau bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithredu mewn modd cyffelyb i reoleiddwyr ieuchyd proffesiynol eraill (y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) drwy symleiddio prosesau presennol Addasrwydd i Ymarfer. Bydd archwilwyr achosion yn gallu cyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor Ymchwilio trwy gytuno ar ymrwymadau (cytundeb i wneud rhywbeth) sy'n cynnwys rhoi rhybuddion neu gyngor neu atgyfeirio i bwyllgor ymarfer. Mae hyn yn golygu na fydd angen cynnal cyfarfod i drafod honiadau Addasrwydd i Ymarfer;
- ni fydd y dull 'un model sy'n addas i bawb' yn cael ei ddefnyddio mwyach mewn perthynas â phob achos, waeth pa mor ddifrifol yw'r achosion;
- bydd yn lleihau'r amser a gymerir i ymdrin â'r achosion Addasrwydd i Ymarfer a gwella cysondeb penderfyniadau; a
- bydd yn rhoi grym i'r archwilwyr achosion a'r pwyllgor ymchwilio weithredu a monitro ymrwymadau ar gyfer gweithwyr cofrestredig.

### CYNLLUN PEILOT DPP

Aethom ati i lunio cynllun peilot i gefnogi anghenion deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol i ddarparu tystiolaeth o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus a byddwn yn ei gyflwyno yn 2017.

Cyflwynwyd pedwar opsiwn i'r Cyngor a gwnaethom newidiadau i'n system bresennol i gefnogi'r cynllun a ffafriwyd, a chafodd hwnnw ei brefi'n drylwyr. Lansiodd y cynllun peilot ym mis Mawrth 2016 gyda'r nod o helpu cyfranogwyr i gwblhau gweithgareddau gofynnol cylch DPP pum mlynedd cyflawn yn y cynllun newydd, gan gywasgu pum mlynedd o'r cynllun i bum mis o'r cynllun peilot (rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2016). Rydym yn gwneud newidiadau i'r system yn unol â'r adborth a dderbyniwyd. Dyma fanteision disgwylidig gwell DPP:

- diweddariadau mwy cywir ac amserol i DPP i sicrhau bod gweithwyr deintyddol proffesiynol yn gwneud mwy na dim ond diweddarau eu proffil DPP tua diwedd y cylch pum mlynedd i ddiogelu cleifion;
- treulio llai o amser yn diweddarau DPP gan ein bod yn canolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na maint;
- diweddariadau mwy ystyrlon gan y byddwn ni ond yn casglu DPP sy'n gallu bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac y mae modd ei ardystio i gefnogi'r proffesiwn; a

- helpu i gynnal sgiliau trwy ddiweddariadau DPP mwy rheolaidd.

### **MODEL RHAGOLYGN TREIGL**

Aethom ati i gyflwyno model newydd sy'n ein galluogi i ragweld yn fwy cywir faint o achosion Addasrwydd i Ymarfer y gallwn eu disgwyl dros gyfnod o 18 mis.

Dydym ni ddim am ddychwelyd i'r sefyllfa y cawsom ein hunain ynddi rai blynyddoedd yn ôl pan welodd y sefydliad gynnydd mawr yn nifer y cwynion, a wnaeth fwy na dyblu, gan arwain at ôl-groniad o achosion.

Fe gymeron ni fwy o amser na'r disgwyl i gwblhau achosion ac mae'r model newydd wedi dechrau nodi ffyrdd y gallwn ni fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol. Mae rhai o fanteision y model yn dal i gael eu holrhain, ond mae rhai wedi'u gwireddu'n barod. Mae'r model:

- yn ein galluogi i ragweld faint o waith ac adnoddau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith angenrheidiol o fewn cyfnod treigl o 18 mis, gan wella ein heffeithlonrwydd a'n gallu i gynllunio fel rheoleiddiwr;
- yn gweithredu fel model goruchwyllo i'n galluogi i fonitro a oes modd gwneud unrhyw newidiadau i'r broses i wella ei heffeithlonrwydd;
- yn ein galluogi i fod yn fwy tryloyw gyda chleifion, ein partneriaid a'r proffesiwn ynglŷn â sut rydym yn darparu adnoddau ar gyfer ein swyddogaeth Addasrwydd i Ymarfer.

## 6. Adroddiad ystadegol a pherfformiad

### Cofrestru

Rhaid i bob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol er mwyn ymarfer yn gyfreithlon yn y DU. Rhaid i bawb sy'n ymuno â'r gofrestr ddangos bod ganddynt y cymwysterau gofynnol, neu lwyddo mewn asesiad, a bodloni'r gofynion iechyd a chymeriad er mwyn bod yn addas i ymarfer fel aelod o dîm deintyddol.

Gellir gwneud cais mewn sawl ffordd. Rhaid i ymgeisydd ddangos bod ganddo un o'r canlynol:

- cymhwyster cydnabyddedig o'r DU
- cymhwyster cydnabyddedig o Ewrop
- cymhwyster cydnabyddedig o'r tu allan i Ewrop
- asesiad o addasrwydd i gofrestru gan banel asesu sgiliau a gwybodaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (yn achos unigolion cymwys o'r tu allan i Ewrop sydd â statws unigolyn esempt); neu
- ei fod wedi llwyddo yn yr Arholiad Cofrestru Tramor (ar gyfer deintyddion o'r tu allan i Ewrop sydd wedi cymhwyso dramor nad ydynt yn elwa ar hawliau cymunedol y gellir eu gorfodi).

### Rhestri arbenigwyr

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cadw rhestri hefyd o ddeintyddion sy'n ddigon cymwys neu brofiadol i'w galw eu hunain yn arbenigwyr mewn meysydd deintyddol penodol.

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP):

Mae gan weithwyr deintyddol proffesiynol ddyletswydd i ddiweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth yn ystod eu gyrfa. Mae DPP yn gallu helpu deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol i gynnal a diweddarau eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hymddygiad gydol eu bywyd gwaith.

Efallai y bydd yn helpu i wella ansawdd gofal a thriniaeth cleifion hefyd. Mae ymgymryd â DPP yn rhan orfodol o gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Rhaid i weithiwr deintyddol proffesiynol fodloni ein gofynion DPP i gynnal ei gofrestrriad. Mae hi hefyd yn ofynnol i unrhyw weithiwr deintyddol proffesiynol sydd am ailymuno â'r gofrestr ddarparu tystiolaeth o'i DPP.

### 1. Cyfanswm y deintyddion a'r gweithwyr deintyddol proffesiynol ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2015

Math o Gofrestrriad	Nifer y Gweithwyr Cofrestredig	% o'r Cyfanswm
Deintydd	41095	38%
Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol	67114	62%
Cyfanswm	108209	

Mae tabl un yn dangos cyfanswm y deintyddion a'r gweithwyr deintyddol proffesiynol sydd ar y gofrestr. Dim ond unwaith y caiff gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sydd â mwy nag

un teitl, er enghraifft, hylenydd deintyddol sydd hefyd yn therapydd deintyddol, ei gyfrif yn y tabl hwn. Mae cyfansoddiad y gofrestr yn ôl grŵp deintyddol i'w weld yn nhabl 3.

Bu cynnydd o 1% yng nghyfanswm y gweithwyr cofrestredig o 106,313 ar ddiwedd 2014 i 108,209 ar ddiwedd 2015.

## 2. Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl rhyw deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar 31 Rhagfyr 2015<sup>1</sup>

Math o Gofrestriad	Gwryw	% o'r Cyfanswm
Deintydd	21822	53%
Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol	5768	9%
Pob Gweithiwr Cofrestredig	27590	25%

Math o Gofrestriad	Benyw	% o'r Cyfanswm
Deintydd	19273	47%
Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol	61346	91%
Pob Gweithiwr Cofrestredig	80619	75%


## 3. Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl grŵp deintyddol ar 31 Rhagfyr 2015

Teitl y Cofrestriad	Nifer y Teitlau	% o'r Cyfanswm
Deintydd	41095	37%
Technegydd Deintyddol Clinigol	347	<1%
Hylenydd Deintyddol	6753	6%
Nyrs Ddeintyddol	54663	49%
Technegydd Deintyddol	6295	6%
Therapydd Deintyddol	2708	2%
Therapydd Orthodontig	457	<1%
Cyfanswm	*112318	

*\* Mae'r tabl hwn yn cyfrif nifer yr aelodau o bob math o weithiwr deintyddol proffesiynol sydd ar y gofrestr. Caiff gweithiwr deintyddol proffesiynol sydd â mwy nag un teitl ei gyfrif unwaith am bob teitl sydd ganddo. Felly, bydd y cyfanswm ar gyfer y tabl hwn yn fwy na nifer y bobl sydd wedi'u cyfrif yn nhabl un.*


Bu cynnydd o 2% yng nghyfanswm y teitlau cofrestredig o 109,956 yn 2014 i 112,318 yn 2015.

<sup>1</sup> Mae canrannau'n cynrychioli cyfran y cyfansoddiad yn ôl rhyw ar y gofrestr yn ei chyfanrwydd.



#### 4. Ychwanegiadau i'r Gofrestr yn 2015 yn ôl grŵp deintyddol


Teitl y Cofrestrriad	Nifer y Gweithwyr Cofrestredig	% o'r Cyfanswm
Deintydd	2571	30%
Technegydd Deintyddol Clinigol	2	<1%
Hylenydd Deintyddol	268	3%
Nyrs Ddeintyddol	5140	61%
Technegydd Deintyddol	314	4%
Therapydd Deintyddol	184	2%
Therapydd Orthodontig	2	<1%
Cyfanswm	8481	



## 5. Deintyddion ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2015 yn ôl lleoliad cymhwys

### a) Deintyddion, yn ôl lleoliad cymhwys

Lleoliad cymhwys	Nifer y gweithwyr cofrestredig	% o'r Cyfanswm
ORE (Arholiad Tramor y DU)	2957	7%
Wedi cymhwysio dramor	1778	4%
Wedi cymhwysio yn y DU	29541	72%
Wedi cymhwysio yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd	6819	17%
<b>Cyfanswm</b>	<b>41095</b>	



### b) Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol, yn ôl lleoliad cymhwys

Teitl y Cofrestrriad	Y DU	% o'r Cyfanswm	Y tu allan i'r DU	% o'r Cyfanswm	Cyfanswm
Technegydd Deintyddol Clinigol	345	99%	2	1%	347
Hylenydd Deintyddol	6543	97%	210	3%	6753
Nyrs Ddeintyddol	54395	100%	268	<1%	54663
Technegydd Deintyddol	6171	98%	124	2%	6295
Therapydd Deintyddol	2697	100%	11	<1%	2708
Therapydd Orthodontig	454	99%	3	1%	457
<b>Cyfanswm</b>	<b>70605</b>		<b>618</b>		<b>71223</b>

\*Yn cynnwys pobl a ymunodd â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol o ganlyniad i brofiad a wiriwyd, cymhwysedd a wiriwyd neu drosglwyddo o gofrestri gwirfoddol ar adeg y trefniadau pontio wrth sefydlu cofrestr y Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol. Mae nifer gyfyngedig o deitlau wedi gofyn am ddadansoddiad â llaw er mwyn




## Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015

*dosbarthu'r cofrestriadau yn ôl lleoliad cymhwysu yn y DU/y tu allan i'r DU. Felly, efallai y bydd amrywiadau bach mewn cyfrifiadau yn bodoli o gymharu â ffigurau eraill ar gyfer y cyfnod adrodd hwn.*

## 6. Deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2015, yn ôl lleoliad cymhwys

Ychwanegiadau i'r gofrestr deintyddion yn 2015, yn ôl lleoliad cymhwys

Lleoliad Cymhwys	Nifer y Gweithwyr Cofrestredig	% o'r Cyfanswm
ORE (Arholiad Tramor y DU)	164	6%
Wedi cymhwyso dramor	45	2%
Wedi cymhwyso yn y DU	1693	66%
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd	669	26%
Cyfanswm	2571	





a) Ychwanegiadau i'r gofrestr gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn 2015, yn ôl lleoliad cymhwys

Teitl y Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol	Y DU	% o'r Cyfanswm	Y tu allan i'r DU	% o'r Cyfanswm	Cyfanswm
Technegydd Deintyddol Clinigol	2	100%	0	0%	2
Hylenydd Deintyddol	237	88%	31	12%	268
Nyrs Ddeintyddol	5086	99%	54	1%	5140
Technegydd Deintyddol	281	89%	33	11%	314
Therapydd Deintyddol	181	98%	3	2%	184
Therapydd Orthodontig	2	100%	0	0%	2
Cyfanswm	5789		121		5910

### 7. Cyfansoddiad deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2015 yn ôl rhyw

Teitl	Gwryw	% o'r Cyfanswm	Benyw	% o'r Cyfanswm	Cyfanswm
Deintydd	1092	42%	1479	58%	2571
Technegydd Deintyddol Clinigol	0	0%	2	100%	2
Hylenydd Deintyddol	19	7%	249	93%	268
Nyrs Ddeintyddol	117	2%	5023	98%	5140
Technegydd Deintyddol	181	58%	133	42%	314
Therapydd Deintyddol	15	8%	169	92%	184
Therapydd Orthodontig	0	0%	2	100%	2
Cyfanswm	1424		7057		8481



### 8. Cyfansoddiad y rhestr arbenigwyr ar ddiwedd 2015

Math o Arbenigedd	Nifer y Teitlau	% o'r Cyfanswm
Deintyddiaeth Gofal Arbennig	306	7%
Deintyddiaeth Adferol	303	7%
Prosthodonteg	434	10%

Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015

Periodonteg	359	9%
Deintyddiaeth Bediatrig	235	6%
Orthodonteg	1334	32%
Llawdriniaeth ar y Geg	720	17%
Microbioleg y Geg	8	<1%
Meddygaeth y Geg	68	2%
Patholeg y Geg a'r Genau a'r Wyneb	30	<1%
Endodonteg	271	6%
Iechyd Deintyddol Cyhoeddus	109	3%
Radioleg Ddeintyddol a'r Genau a'r Wyneb	27	<1%
Cyfanswm	4204	

*Nodyn ar restr arbenigwyr: Bu gostyngiad o 3% yn nifer y teitlau arbenigol ar ddiwedd 2015, o gymharu â 4,347 o deitlau yn 2014.*

## Addasrwydd i Ymarfer

Rhaid i ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol fodloni gofynion arbennig wrth gofrestru yn y lle cyntaf a thrwy gydol eu gyrfaedd er mwyn bod yn gymwys i ymarfer.

Pan rydym yn dweud bod rhywun yn 'gymwys i ymarfer', rydym yn golygu bod ganddo'r sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd priodol i ymarfer ei broffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol. Fodd bynnag, mae addasrwydd i Ymarfer yn golygu mwy na pherfformiad neu iechyd clinigol ymarferydd.

Mae addasrwydd ymarferydd i ymarfer yn cynnwys unrhyw gamau a gymerwyd ganddynt hefyd sy'n effeithio ar ffydd y cyhoedd mewn gweithwyr deintyddol proffesiynol a'r broses o'u rheoleiddio. Gall hyn gynnwys materion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag ymarfer proffesiynol, er enghraifft, cyflawni trosedd.

Os cwestiynir ymddygiad neu berfformiad gweithiwr deintyddol proffesiynol, naill ai trwy gŵyn uniongyrchol gan glaf neu hysbyswr neu drwy atgyfeiriad gan gorff proffesiynol, er enghraifft, hysbysiad gan yr Heddlu am rybudd neu euogfarn droseddol, efallai y bydd yr unigolyn yn destun ein gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer.

Bydd y broses yn ymchwilio i'r canlynol:

- camgymeriadau difrifol neu fynych mewn gofal clinigol, er enghraifft, camgymeriadau mewn diagnosis neu weithdrefnau deintyddol
- methu ag archwilio claf yn gywir, methu â chael caniatâd gwybodus claf cyn triniaeth neu fethu ag ymateb yn rhesymol i anghenion claf
- dim yswiriant indemniad proffesiynol
- materion croes-heintio (er enghraifft, defnyddio cyfarpar clinigol budr yn ystod triniaeth)
- achosion difrifol o dorri cyfrinachedd claf
- trosedd ddifrifol, gan gynnwys twyll, achos o ddwyn neu anonestrwydd gan ddeintydd neu weithiwr gofal deintyddol proffesiynol
- iechyd gwael neu gyflwr meddygol sy'n cael effaith sylweddol ar allu'r gweithiwr cofrestredig i drin cleifion yn ddiogel

Gallwn gymryd camau os credwn bod Addasrwydd i Ymarfer gweithiwr deintyddol proffesiynol yn ddiffygiol oherwydd, er enghraifft:


- camymddwyn
- perfformiad proffesiynol diffygiol
- rybudd neu euogfarn droseddol yn y Deyrnas Unedig (neu rywle arall pe bai'r hyn a wnaed yn drosedd pe bai wedi'i chyflawni yn y Deyrnas Unedig)
- salwch corfforol neu feddyliol
- penderfyniad gan gorff rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig neu dramor.

Mae pob cwyn yn ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer yn cael ei hadolygu yn ystod y cam brysbennu. Mae Ffigur 2 yn amlinellu'r camau i'w cymryd ar ôl derbyn ymholiad. Ar ôl cynnal asesiad neu ymchwiliad cychwynnol, bydd yr ymholiad naill ai'n cael ei gau os nad oes angen cymryd camau pellach, neu'n cael ei anfon at y tîm gwaith achosion a fydd yn cynnal ymchwiliad pellach ac yn gwneud asesiad arall yn y pen draw.

Ffigur 2. Mae'r ffigur hwn yn dangos beth sy'n digwydd pan fo cwyn yn ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer yn cael ei gwneud

## GDC Fitness to Practise Process

Showing likely duration of cases



Ar ôl cynnal ymchwiliad llawn, bydd materion a ystyrir yn honiad o amhariad posibl o ran Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu hatgyfeirio i banel y Pwyllgor Ymchwilio. (Ar y llaw arall, os penderfynir nad yw'r pryder yn honiad o amhariad, bydd y mater yn cael ei gau.) Mae panel y Pwyllgor Ymchwilio yn cynnwys aelodau cofrestredig ac aelodau lleyg (pobl nad ydynt ar ein cofrestr) sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried achosion.

Eu tasg yw edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael a phenderfynu a oes yna bosibilrwydd gwirioneddol y byddai'r honiadau'n cael eu profi mewn Pwyllgor Ymarfer. Nid yw'r panel yn penderfynu a yw'r honiad wedi'i brofi; dim ond a oes yna bosibilrwydd gwirioneddol y byddai'r honiad yn cael ei brofi mewn gwrandawriad.

Efallai y bydd y panel y Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach neu fod llythyr cynghori neu rybuddio yn ddigonol. Mewn achosion a allai fod yn fwy difrifol, gall panel y Pwyllgor Ymchwilio atgyfeirio'r mater i un o dri Phwyllgor Ymarfer: y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (PCC), y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol (PPC) neu'r Pwyllgor Iechyd (HC) i gael gwrandawriad ffurfiol.

Bydd gweithwyr deintyddol proffesiynol a atgyfeirir i Bwyllgor Ymarfer yn ymddangos gerbron panel annibynnol o weithwyr deintyddol proffesiynol ac aelodau lleyg fel rhan o wrandawriad ffurfiol lle mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r gweithwyr deintyddol proffesiynol yr hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

Os penderfynir bod addasrwydd i Ymarfer gweithiwr cofrestredig yn ddiffygiol, gallwn:


- beidio â chymryd unrhyw gamau
- cyhoeddi cerydd
- gosod amodau ar gofrestr;
- atal cofrestriad dros dro;
- tynnu unigolyn oddi ar gofrestr y deintyddion neu gofrestr y gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol

Mae yna broses apelio hefyd.

Ar unrhyw adeg yn y broses Addasrwydd i Ymarfer, pan fo honiad yn awgrymu y gallai gweithiwr deintyddol proffesiynol achosi niwed neu os oes yna resymau eraill er lles y cyhoedd, gallwn wneud cais am orchymyn interim i atal yr unigolyn hwnnw rhag ymarfer, neu i osod cyfyngiadau ar ei ymarfer, hyd nes y bydd ei achos yn cael ei glywed.

Dim ond mewn achosion difrifol y gwneir y ceisiadau hyn. Efallai y bydd gorchymyn interim yn cael ei ystyried yn angenrheidiol er diogelwch y cyhoedd:

- os oes yna risg wirioneddol o niwed sylweddol i iechyd, diogelwch neu les claf, ymwelydd, cydweithiwr neu aelod arall o'r cyhoedd pe bai'r ymarferydd yn cael ymarfer heb gyfyngiad
- os oes angen diogelu ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn a chynnal safonau proffesiynol priodol er lles y cyhoedd;
- os yw er lles y gweithiwr cofrestredig dan sylw.




Achosion yn ôl y math o hysbyswr 2015

Claf  
Gweithiwr Cofrestredig  
Cyngor Deintyddol Cyffredinol  
Aelod o'r Cyhoedd  
Dienw  
PCT neu'r GIG  
Mathau eraill o Hysbyswr  
Hunanatgyfeiriad  
Corff Cyhoeddus arall  
Cyflogwr  
Heddlu neu gorff ymchwilio arall

Mae'r siart uchod yn dangos gan bwy y cafwyd y cwynion a dderbyniwyd yn 2015. O'r 2,786 o gwynion a dderbyniwyd, roedd tua chwech o bob deg (1,684) gan gleifion.



Mae'r siart isod yn cymharu nifer y cwynion yn 2015 â ffigurau'r ddwy flynedd flaenorol.




Dadansoddiad o achosion yn ôl y math o hysbyswr 2013-2015

- Claf
- Gweithiwr Cofrestredig
- Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Aelod o'r Cyhoedd
- Dienw
- PCT neu'r GIG
- Mathau eraill o Hysbyswr
- Hunanatgyfeiriad
- Corff Cyhoeddus arall
- Cyflogwr



Cafwyd 2,786 o gwynion yn 2015, o gymharu â 3,099 yn 2014 – gostyngiad o 10%. Mae'r siart isod yn dangos ym mha ardal mae'r gweithiwr deintyddol proffesiynol yn gweithio.



Achosion yn ôl ardal y gweithiwr cofrestredig

- Llundain
- De-ddwyrain Lloegr
- Dim gwybodaeth
- Gogledd-orllewin Lloegr
- Yr Alban
- Dwyrain Lloegr
- De-orllewin Lloegr
- Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Swydd Efrog a Humber
- Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Cymru
- Gogledd-ddwyrain Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Ynysoedd y Sianel

Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i amryw o ffactorau. Mae'n debyg mai ffactor o'r fath yw'r newid a wnaed i wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ganol 2015, lle darparwyd gwybodaeth ychwanegol i helpu achwynwyr posibl gyda'u hymholiadau. Mae pob cwyn a dderbynnir trwy'r wefan yn cael ei hidlo i ailgyfeirio materion nad ydynt yn ymwneud â chwyn yn erbyn gweithiwr cofrestredig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.


Mae'r gostyngiad hwn a chyfradd yr achosion newydd yn parhau i gael eu monitro'n ofalus yn unol ag ystyriaethau cyllidebol a chynllunio busnes allweddol.

Mae nifer yr achosion a ystyriwyd ym mhob cyfnod o'r gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer yn 2015 fel a ganlyn:

<b>Brysbennu</b>	<b>2,545</b> Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli nifer yr achosion a ystyriwyd yn ystod y cam brysbennu, pan fo achosion yn cael eu sgrinio, a gallant gael eu cau neu eu hatgyfeirio i fod yn
------------------	---

	<p>destun ymchwiliad pellach. Cafodd 32% o'r cyfanswm hwn eu cau a chafodd 68% eu hatgyfeirio i'w hasesu. Mae'r cyfanswm hwn yn cynrychioli gostyngiad o 21% yn nifer yr achosion brysbennu a gaewyd ac atgyfeiriadau o gymharu â 3,222 o achosion yn 2014. Efallai na fydd y cyfanswm hwn yn cyfateb i achosion newydd yn ystod y flwyddyn (2,786), gan y bydd achosion yn y cam brysbennu a dderbyniwyd yn y flwyddyn flaenorol.</p>
<p><b>Asesu</b></p>	<p><b>1,992</b>                  Dyma nifer yr achosion a ystyriwyd yn y cyfnod asesu, pan y gall achosion gael eu cau (54%) neu eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Ymchwilio (46%). Mae'r cyfanswm hwn yn cynrychioli gostyngiad o 22% yn nifer yr achosion asesu a gaewyd ac atgyfeiriadau o gymharu â 2,567 o achosion yn 2014.</p>

<p><b>Pwyllgor Ymchwilio</b></p>	<p><b>974</b>                  Dyma nifer yr achosion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymchwilio a gafodd eu cau (56%) neu eu hatgyfeirio i Bwyllgor Ymarfer (44%), gan gynnwys ailystyriaethau Rheol 10 (yr achosion hynny sydd wedi dychwelyd i'r Pwyllgor Archwilio yn dilyn atgyfeiriad cychwynnol i Bwyllgor Ymarfer). Mae'r cyfanswm hwn yn cynrychioli gostyngiad o 3% yn nifer yr achosion Pwyllgor Ymchwilio a gaewyd ac a atgyfeiriwyd o gymharu â 1,012 o achosion yn 2014.</p>
<p><b>Pwyllgor Ymarfer</b></p>	<p><b>431</b>                  Dyma nifer yr achosion a atgyfeiriwyd gan y Pwyllgor Ymchwilio i Bwyllgor Ymarfer. Mae'r cyfanswm hwn yn cynrychioli cynnydd o 6% yn nifer yr atgyfeiriadau i Bwyllgor Ymarfer o gymharu â 403 o atgyfeiriadau yn 2014. O'r 431 o atgyfeiriadau, daeth 122 ohonynt yn atgyfeiriadau Pwyllgor Gorchmynion Interim – yr un faint ag yn 2014. D.S. Efallai y bydd mwy nag un achos yn ymwneud â gweithwyr deintyddol proffesiynol unigol.</p>




Dadansoddiad o Ganlyniadau terfynol y Pwyllgor Archwilio 2013-2015

- Cau heb weithredu pellach
- Cau gyda chyngor
- Cau gyda rhybudd heb ei gyhoeddi
- Cau gyda rhybudd cyhoeddedig
- Atgyfeirio i PCC
- Atgyfeirio i HC
- Atgyfeirio i PPC

Mae'r siart uchod yn dangos beth ddigwyddodd i'r achosion a gyraeddodd y cam Pwyllgor Ymchwilio rhwng 2013 a 2015.

**Canran yr achosion Addasrwydd i Ymarfer sydd wedi'u brysennu o fewn y targed o 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith net)**




KPI Brysbennu – Achosion i'w brysennu o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith net) i'w derbyn

- C1 2015
- C2 2015
- C3 2015
- C4 2015

O fewn y targed  
Y tu allan i'r targed

Yn 2015, o'r 2,545 o achosion a ystyriwyd yn ystod y cam brysennu, nodwyd 816 o achosion y gellid eu cau heb ymchwiliad pellach. Roedd hyn yn golygu y gellid canolbwyntio adnoddau ar ymchwilio i achosion lle roedd yna bosibilrwydd gwirioneddol y byddai honiad o ddiffyg Addasrwydd i Ymarfer yn cael ei profi.

**Canran yr achosion cyfnod ymchwilio Addasrwydd i Ymarfer a gwblhawyd o fewn y targed o 6 mis o'r dyddiad derbyn**



KPI Ymchwilio – Achosion i gwblhau'r cyfnod Ymchwilio o fewn 6 mis i'w derbyn

- C1 2015
- C2 2015
- C3 2015
- C4 2015


O fewn y targed

Aroddiad blynyddol a chyfrifon 2015

Y tu allan i'r targed

Cafodd 68% o'r achosion yn y cam ymchwilio eu cwblhau o fewn y targed o chwe mis yn 2015.

### Canran yr achosion Addasrwydd i Ymarfer a dderbyniodd wrandawriad cychwynnol o fewn naw mis i'w hatgyfeiriad gan y Pwyllgor Ymchwilio



KPI Gwrandawriadau – Achosion i gyrraedd gwrandawriad o fewn naw mis i'w hatgyfeiriad gan y Pwyllgor Ymchwilio

C1 2015  
C2 2015  
C3 2015  
C4 2015

O fewn y targed  
Y tu allan i'r targed

Derbyniodd 57% o'r achosion wrandawriad cychwynnol o fewn 9 mis i'w hatgyfeiriad gan y Pwyllgor Ymchwilio.

Roedd nifer yr achosion byw a oedd yn disgwyl gwrandawriad cyntaf, a oedd wedi methu ein targed naw mis, yn 28% ar ddiwedd mis Rhagfyr 2015. Mae hyn o gymharu â 12% yn y flwyddyn flaenorol. Roedd 270 o achosion yn y ciw am wrandawriad cychwynnol ar ddiwedd 2015, o gymharu â 261 ar ddiwedd 2014 – cynnydd o 3%.



## Pwyllgor Gorchmynion Interim

Pwyllgor statudol sy'n ystyried honiadau difrifol i benderfynu a yw'n briodol atal neu osod cyfyngiadau ar ymarfer unigolyn hyd nes y bydd ei achos yn cael ei glywed.

**Cyfanswm y gwrandawiadau yn 2015:** 387

(424 o wrandawiadau yn 2014)


**Nifer yr achosion yn ymwneud â deintyddion:** 279 o ddeintyddion

(322 o wrandawiadau yn ymwneud â deintyddion yn 2014)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol:** 108 o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol (62 o nyrsys deintyddol, 35 o dechnegwyr deintyddol, 7 hylenydd/therapydd deintyddol a 4 technegydd deintyddol clinigol)

(102 o wrandawiadau yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn 2014)

Canlyniad	Nifer yr Achosion	% o'r Cyfanswm
Cyflwyno gorchymyn gwahardd interim	43	11%
Cyflwyno amodau interim	57	15%
Adnewyddu gorchymyn gwahardd interim	85	22%
Adnewyddu amodau interim	106	27%
Codi gwaharddiad / amodau	13	3%
Dim gorchymyn	68	18%
Gohirio	15	4%
<b>CYFANSWM CANLYNIADAU</b>	<b>387</b>	



## Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol

Pwyllgor statudol sy'n un o'r tri phwyllgor ymarfer. Mae'n ystyried honiadau o berfformiad diffygiol yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r diffyg hwn yn gyfystyr ag amhariad ar ei Addasrwydd i Ymarfer.

**Cyfanswm y gwrandawiadau yn 2015:** 17 (deintyddion i gyd)  
(7 gwrandawriad yn ymwneud â deintyddion yn 2014)

## Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol


Pwyllgor statudol sy'n un o'r tri phwyllgor ymarfer. Mae'n ystyried honiadau o gamymddwyn yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r camymddwyn hwn yn gyfystyr ag amhariad ar ei Addasrwydd i Ymarfer.

**Cyfanswm y gwrandawiadau yn 2015:** 269  
(187 o wrandawiadau PCC yn 2014)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â deintyddion:** 205  
(160 o wrandawiadau yn ymwneud â deintyddion yn 2014)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol:** 64 (39 o nyrsys deintyddol, 19 o dechnegwyr deintyddol, 2 dechnegydd deintyddol clinigol a 4 hylenydd/therapydd deintyddol)  
(27 o wrandawiadau yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn 2014)

Canlyniad	Nifer yr Achosion	% o'r Cyfanswm
Dileu gyda gwaharddiad yn syth	28	10%
Gwahardd am gyfnod amhenodol	4	1%
Gwahardd gydag adolygiad	51	18%
Gwahardd heb adolygiad	9	3%
Amodau gydag adolygiad	54	19%
Amharu ar Addasrwydd i Ymarfer - cerydd	30	11%
Amharu ar Addasrwydd i Ymarfer – NFA	1	<1%
Camymddwyn neu berfformiad proffesiynol diffygiol; heb amharu ar Addasrwydd i Ymarfer	40	14%
Dim achos o gamymddwyn	30	11%%
Dim amhariad presennol; gwaharddiad wedi'i ddiddymu	9	3%
Dim amhariad presennol; codi amodau	21	7%
Dim achos i'w ateb	9	3%
Cyfanswm	286	



## Pwyllgor Iechyd

Pwyllgor statudol sy'n un o'r tri phwyllgor ymarfer. Mae'n ystyried achosion lle mae'n ymddangos bod addasrwydd i Ymarfer gweithiwr deintyddol proffesiynol i ymarfer yn cael ei effeithio gan gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol.

**Cyfanswm y gwrandawiadau:** 33  
(21 o wrandawiadau yn 2014)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â deintyddion:** 25 (14 o wrandawiadau yn ymwneud â deintyddion yn 2014)

**Nifer yr achosion yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol:** 8 (6 nyrs ddeintyddol, 1 technegydd deintyddol ac 1 hylenydd deintyddol)  
(7 o wrandawiadau yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn 2014)

Canlyniad	Nifer yr Achosion	% o'r Cyfanswm
Gwaharddiad cychwynnol	7	21%
Amodau cychwynnol	9	28%
Gwaharddiad am gyfnod amhenodol yn dilyn adolygiad	1	3%
Gwaharddiad yn parhau yn dilyn adolygiad	7	21%
Amodau'n parhau yn dilyn adolygiad	2	6%
Gwaharddiad wedi'i ddiddymu, gosod amodau	2	6%
Dim amhariad mwyach – amodau wedi'u diddymu	2	6%
Dim amhariad presennol	3	9%
<b>CYFANSWM CANLYNIADAU</b>	<b>33</b>	

## Gwrandawiadau a ohiriwyd / a glywyd yn rhannol ar ddiwedd y flwyddyn

7

### Dyddiau gwrandawiadau yn 2015

Nifer y dyddiau gwrandawriad a drefnwyd: 1866

Cynnydd yn nifer y dyddiau gwrandawriad a drefnwyd o gymharu â 2014: 50%

Hyd gwrandawriad PCC neu PPC cychwynnol ar gyfartaledd: 4 diwrnod

## Materion a ystyriwyd gan y PCC/PPC yn 2015

Mater	Nifer yr Achosion**	% o Gyfanswm yr Achosion
Triniaeth wael	179	23%
Cofnodion wedi'u cadw'n dawel	111	14%
Heb gymryd radiograffau priodol neu ddehongli	80	10%
Twyll/anonestrywydd	53	7%
Heb gael caniatâd/egluro triniaeth	42	5%
Heb gydweithredu â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol neu fethu â datgelu euogfarnau/rhybuddion	38	5%
Ymddygiad personol	33	4%
Materion presgripsiwn	31	4%

Gweithio y tu allan i gwmpas ymarfer	25	3%
Dim yswiriant indemniad proffesiynol neu fethu â chyflwyno tystiolaeth	24	3%
Pydredd dannedd heb ei ddiagnosio/heb ei drin	21	3%
Rheoli croes-heintiad	16	2%
Methiannau o ran cofnodi hanes meddygol a/neu ddeintyddol	15	2%
Euogfarnau neu rybuddion - arall	14	2%
Hysbysebu camarweiniol	11	1%
Euogfarn neu rybudd am ymosod	10	1%
Ymosodiad anweddus neu ymddygiad rhywiol amhriodol	10	1%
Camarwain ynglŷn â thriniaeth sydd ar gael ar y GIG	9	1%
Euogfarn neu rybudd - alcohol neu gyffuriau	9	1%
Euogfarn neu rybudd am ddwyn	8	1%
Methiant o ran atgyfeirio	7	<1%
Cyfnod o ymarfer anghofrestredig	5	<1%
Tynnu dannedd mewn ffordd glinigol anghywir	4	<1%
Peidio rhoi anaestetig	4	<1%
Heb weld neu fonitro niwed	3	<1%
Heb hysbysu'r claf am ddigwyddiad difrifol	3	<1%
Cyflogi deintydd neu nyrs nad yw wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol	3	<1%
Datganiadau anghywir i'r CQC	3	<1%
Gwynnu dannedd	2	<1%
Gwneud sylwadau hiliol sarhaus	1	<1%
Peidio â goruchwyllo Ymarferwyr Deintyddol Galwedigaethol yn ddigonol	1	<1%
CYFANSWM	775	

*\*\* Yn aml, mae achosion yn ymwneud â mwy nag un mater. Mae'r ffigurau hyn yn darparu proffil sy'n adlewyrchu'r prif faterion yn hytrach na phob honiad unigol.*

### **Ceisiadau Adfer**

Nifer yr ystyriwyd	3
Wedi'u hadfer	1
Wedi'u hadfer gydag amodau	1
Wedi'u gohirio i gael mwy o wybodaeth	1

### **Yr amser a gymerwyd i gwblhau gwrandawriad cychwynnol achosion**

(Ar ôl atgyfeirio gan y Pwyllgor Ymchwilio – gwrandawriadau adolygu heb eu cwblhau):

0-9 mis	129
10-12 mis	72
13-18 mis	20
19-24 mis	3
25-30 mis	1
31+ mis	1

## 7. Strwythur y Cyngor

Mae gan y Cyngor deuddeg o aelodau: chwe gweithiwr deintyddol proffesiynol a chwech aelod lleyg. Roedd aelodau'r Cyngor yn 2015 fel a ganlyn:

Penodwyd Catherine Brady yn aelod gweithiwr deintyddol proffesiynol ar 1 Mehefin 2015. Cafodd David Smith ei wahardd o'r Cyngor dros dro ar 10 Rhagfyr 2015 wrth i ni ddisgwyl canlyniad ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer.

Aelodau gweithiwr deintyddol proffesiynol	Aelodau lleyg
Catherine Brady	Geraldine Campbell
Margaret Kellett	Michael Carroll
Kirstie Moons	Rosemary Carter
Lawrence Mudford	Alan MacDonald
Jayendra Patel	William Moyes (Cadeirydd)
David Smith	Neil Stevenson

### Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor yn 2015

Enw	Chwe	Maw	Ebr	Meh	Gor	Hyd	Tach	Rhag	Cyfanswm presenoldeb mewn cyfarfodydd y mae aelod yn gymwys i'w mynychu
Catherine Brady*				✓	✓	✓	✓	✓	5/5
Geraldine Campbell	x	✓	✓	✓	✓	✓	✓	x	6/8
Michael Carroll	✓	✓	x	x	✓	✓	✓	✓	6/8
Rosemary Carter	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8/8
Margaret Kellett	✓	✓	x	✓	✓	✓	✓	✓	7/8
Alan MacDonald	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8/8
Kirstie Moons	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8/8
William Moyes (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8/8
Lawrence Mudford	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8/8
Jayendra Patel	✓	✓	✓	✓	x	x	x	✓	5/8
David Smith**	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		7/7
Neil Stevenson	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	8/8

\*Penodwyd Catherine Brady i'r Cyngor ym mis Mehefin 2015

\*\*Cafodd David Smith ei wahardd dros dro ar 10 Rhagfyr 2015





## Pwyllgorau statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd), mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyfrifoldeb i ymdrin â honiadau sy'n ymwneud â diffyg addasrwydd i ymarfer aelodau o'r proffesiwn deintyddol.

Mae yna chwe phwyllgor statudol sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd fel yr amlinellir yn Adran 2 o Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau panel annibynnol sy'n bobl leyg, deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol. Nid yw aelodau'r Cyngor yn aelodau o'r pwyllgorau statudol, ond mae'r pwyllgorau statudol yn atebol i'r Cyngor am eu perfformiad.

Dyma'r pwyllgorau:

- **Y Pwyllgor Ymchwilio:** Mae'n ystyried honiadau o amhariad ar Addasrwydd i Ymarfer i bennu a ddylai honiadau o'r fath gael eu hatgyfeirio i un o'r tri phwyllgor ymarfer (y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, y Pwyllgor Iechyd neu'r Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol) ar gyfer ymchwiliad llawn.
- **Y Pwyllgor Gorchmynion Interim:** Gall achos gael ei atgyfeirio i'r Pwyllgor hwn unrhyw bryd i ystyried a yw gorchmyn (megis gwaharddiad) yn erbyn cofrestriad gweithiwr deintyddol proffesiynol yn briodol cyn ymchwiliad llawn.
- **Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol:** Mae'n ystyried honiadau o gamymddwyn yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r camymddwyn yn gyfystyr ag amhariad ar ei allu i ymarfer deintyddiaeth.
- **Y Pwyllgor Iechyd:** Mae'n ystyried achosion lle mae'n ymddangos bod perfformiad gweithiwr deintyddol proffesiynol yn cael ei effeithio gan gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol.
- **Y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol:** Mae'n ystyried honiadau o berfformiad diffygiol yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r diffyg hwn yn gyfystyr ag amhariad ar ei allu i ymarfer deintyddiaeth.
- **Y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru:** Mae'n ystyried apeliadau gan weithwyr deintyddol proffesiynol y gwrthodwyd eu cais i gael eu cynnwys ar y gofrestr, sydd wedi'u dileu o'r gofrestr neu nad ydynt wedi cael eu hadfer i'r gofrestr (ond nid gan bwyllgor ymarfer)

Penodir aelodau'r pwyllgorau hyn gan y Pwyllgor Penodiadau, sy'n helpu'r Cyngor i benodi, recriwtio a goruchwyllo gwaith aelodau pwyllgorau statudol. Mae mwy o wybodaeth am waith ac aelodau pwyllgorau statudol y Cyngor ar ein gwefan.<sup>2</sup>

Mae'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan bum pwyllgor anstatudol:

Pwyllgor	Aelodau'r Cyngor
Pwyllgor Penodiadau (Mae'n goruchwyllo'r gwaith o recriwtio, hyfforddi a rheoli perfformiad y pwyllgorau statudol sy'n rhan o'r panel Addasrwydd i Ymarfer a'i Bwyllgor Ymchwilio.)	Rosie Varley (aelod lleyg - Cadeirydd) Martyn Green (aelod cofrestredig) Tim Skelton (aelod lleyg) Nigel Fisher (aelod cofrestredig)
Pwyllgor Archwilio a Risg (Mae'n monitro cywirdeb y datganiadau ariannol, adolygu	Alan MacDonald (Cadeirydd) Lawrence Mudford David Smith (wedi'i wahardd dros dro ar 10

<sup>2</sup> <http://www.gdc-uk.org/Aboutus/Thecouncil/Pages/Committees.aspx>

Ilywodraethu, rheolaeth fewnol, systemau rheoli risg a gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol)	Rhagfyr 2015) Catherine Brady (o 1 Mehefin 2015 ymlaen)
Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (Mae'n herio a monitro perfformiad ariannol a gweithredol. Mae'n gweithio gyda'r tîm gweithredol i ddatblygu cynlluniau busnes a chyllidebau blynyddol)	Michael Carroll (Cadeirydd) Margaret Kellett Kirstie Moons Jayendra Patel Neil Stevenson (tan 30 Medi 2015)
Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol (Mae'n sefydlu gweithdrefnau ar gyfer tâl y Prif Weithredwr, y Tîm Rheoli Gweithredol, aelodau'r Cyngor a'r polisi tâl staff cyffredinol)	Rosemary Carter (Cadeirydd - tan 30 Medi 2015) Neil Stevenson (Cadeirydd - o 2 Hydref 2015 ymlaen) Geraldine Campbell Jayendra Patel (o 3 Mawrth 2016 ymlaen)
Bwrdd Polisi ac Ymchwil (Sefydlwyd 4 Tachwedd 2015) (Mae'n goruchwilio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth, polisi a mentrau ymchwil)	Rosemary Carter (Cadeirydd) Catherine Brady Geraldine Campbell Kirstie Moons Lawrence Mudford

#### **Aelodau annibynnol o Bwyllgorau a wasanaethodd yn 2015:**

Pwyllgor Archwilio a Risg	Jennifer Seeley (tan 31 Mai 2015) Jason Davis (o 17 Gorffennaf 2015 ymlaen)
Pwyllgor Tâl	Lesley Pearson (tan 30 Medi 2015) Philippa Hird (o 1 Hydref 2015 ymlaen)

#### **Recriwtio Pwyllgor Penodiadau newydd**

Yn 2014, aeth y tîm gweithredol ati i adolygu swyddogaeth y Pwyllgor Penodiadau ar ran y Cyngor. Y nod oedd sicrhau bod y pwyllgor yn derbyn cymorth priodol, bod yna gyfres glir o swyddogaethau a rhwymedigaethau a bod y pwyllgor yn gost-effeithiol. Dechreuodd Pwyllgor newydd ar ei waith ar 1 Ionawr 2015 ac mae ei aelodau'n cynnwys:

Rosie Varley (aelod lleyg - Cadeirydd)  
 Martyn Green (aelod cofrestredig)  
 Tim Skelton (aelod lleyg)  
 Nigel Fisher (aelod cofrestredig)

#### **Tîm Rheoli Gweithredol**

Roedd y Tîm Rheoli Gweithredol yn cynnwys:

- Ian Brack, Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu (penodwyd 16 Mai 2016, Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro o 1 Chwefror tan 16 Mai 2016)
- Evlynne Gilvarry, Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu (tan 31 Ionawr 2016)
- Jonathan Green, Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer
- Matthew Hill, Cyfarwyddwr Strategaeth (penodwyd 2 Tachwedd 2015)
- Alex Hunter, Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu Dros Dro (penodwyd 8 Ionawr 2015, tan 13 Awst 2015)
- Kate Husselbee, Cyfarwyddwr AD a Llywodraethu (Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol tan 6 Mai 2015)
- Frances Low, Cyfarwyddwr Llywodraethu (tan 31 Gorffennaf 2015)

Aroddiad blynyddol a chyfrifon 2015

- Graham Masters, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
- Gurvinder Soomal, Cyfarwyddwr Cofrestru a Rhagoriaeth Weithredol
- Tim Whitaker, Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu (tan 16 Ionawr 2015)

## 8. Adroddiad ar dâl

### Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r adroddiad ar dâl yn cynnwys adolygiad o'r Cyngor yn 2015.

Cynhaliodd y Cyngor benodiad Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar gyfer materion penodol sy'n ymwneud â thalu aelodau'r Cyngor a chyfarwyddwyr gweithredol ac ar gyfer polisi cyffredinol ar dâl staff.

Cafodd y pwyllgor ei gadeirio gan Rosemary Carter tan 30 Medi 2015 a gan Neil Stevenson o 1 Hydref 2015 ymlaen.

Dyma oedd aelodau'r pwyllgor: Geraldine Campbell, Jayendra Patel o 3 Mawrth 2016 ymlaen ac, fel aelod annibynnol, Lesley Pearson tan 30 Medi 2015 a Philippa Hird o 1 Hydref 2015 ymlaen. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl penodol ac yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn fel arfer.

### Tâl aelodau'r Cyngor

Mae tâl blynyddol y Cadeirydd yn cael ei bennu gan y pwyllgor ar sail cyfraddau cyffredinol swyddi tebyg a'r amser sy'n ofynnol i gyflawni'r rôl. Penderfynwyd ar dâl y Cadeirydd ym mis Hydref 2013 ar raddfa o £55,000 y flwyddyn.

Ers mis Hydref 2013, mae aelodau'r Cyngor yn cael cyfradd flynyddol o £15,000 y flwyddyn gydag ychwanegiadau o £3,000 y flwyddyn i gadeiryddion pwyllgorau.

### Tâl cyfarwyddwyr gweithredol

Mae dilyniant cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol yn dibynnu ar berfformiad unigolion a meincnodau allanol ar gyfer cyflogau. Tra bod y Prif Weithredwr yn gwneud argymhellion ar gyfer ei gyd-gyfarwyddwyr gweithredol, mae unrhyw godiadau cyflog neu gynnydd mewn taliadau eraill yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Nid yw'r polisi tâl ar gyfer y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau perfformiad.

Roedd contract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd blaenorol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gweithiwr cyflogedig neu'r cyflogwr roi chwe mis o rybudd cyn dod â'r contract i ben. Mae contractau gweddill y cyfarwyddwyr gweithredol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gweithiwr cyflogedig neu'r cyflogwr roi tri mis o rybudd cyn dod â'r contract i ben ar ôl y cyfnod prawf. Mae gan Ian Brack, a benodwyd fel Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro ar 1 Chwefror 2016 ac yn barhaol ar 16 Mai 2016, gontract cyflogaeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r gweithiwr cyflogedig neu'r cyflogwr roi rhybudd o chwe mis cyn dod â'r contract i ben.

Ac eithrio penodiad dros dro Alex Hunter fel Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu, mae pob un o'r cyfarwyddwyr gweithredol yn aelodau o adran buddion diffiniedig neu adran cyfraniadau diffiniedig cynllun pensiwn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu'n cael ei benodi'n uniongyrchol gan y Cyngor ac yn atebol i'r Cyngor ac mae ganddo awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor i wneud penderfyniadau i'r graddau a ddisgrifir yn y Datganiad Llywodraethu. Mae'r datganiad yn nodi'n glir mai rôl y Cyngor yw pennu cyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn unol â'i genhadaeth a'i ddiben; gan sicrhau bod systemau ar waith i'w alluogi i fonitro perfformiad a dwyn y Tîm Gweithredol i gyfrif; a sicrhau cywirdeb. Mae manylion y taliadau sydd wedi'u datgelu ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu i'w gweld llawn isod, ynghyd â datgeliad tâl trethadwy, ac eithrio unrhyw daliadau iawndal, mewn bandiau cyflog ar gyfer y cyfarwyddwyr gweithredol eraill:

Ar gyfer y staff â'r cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn, sef y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y pryd, Evlynne Gilvarry, roedd y tâl a'r cyfraniadau pensiwn cyflogwr fel a ganlyn:

Tâl		Buddion trethadwy		Cyfanswm tâl		Cyfraniadau pensiwn	
2015	2014	2015	2014	2015	2014	2015	2014
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
172	157	3	2	175	159	37	31

Roedd tâl trethadwy a chyfraniadau pensiwn cyflogwr y cyfarwyddwyr gweithredol eraill a wasanaethodd yn 2015, gan gynnwys codiadau cyflog neu daliadau eraill (ond yn eithrio unrhyw daliadau iawndal, y ceir eu manylion isod), yn perthyn i'r bandiau cyflog canlynol:

	Tâl		Cyfraniadau pensiwn	
	2015 £'000	2014 £'000	2015 £'000	2014 £'000
Frances Low, Cyfarwyddwr Llywodraethu (tan 31 Gorffennaf 2015)	60 - 65	100 - 105	10 - 12.5	20 - 22.5
Graham Masters, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	95 - 100	95 - 100	22.5 - 25	22.5 - 25
Kate Husselbee, Cyfarwyddwr AD a Llywodraethu (Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol o 1 Rhagfyr 2014 tan 6 Mai 2015)	110 - 115	5 - 10	22.5 - 25	0 - 2.5
Gurvinder Soomal, Cyfarwyddwr Cofrestru a Rhagoriaeth Weithredol (o 1 Rhagfyr 2014 ymlaen)	95 - 100	5 - 10	17.5 - 20	0 - 2.5
Jonathan Green, Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer (o 15 Rhagfyr 2014 ymlaen)	110 - 115	0 - 5	17.5 - 20	0 - 2.5
Matthew Hill, Cyfarwyddwr Strategaeth (o 2 Tachwedd 2015 ymlaen)	15 - 20	-	0 - 2.5	-
Tim Whitaker, Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu (tan 16 Ionawr 2015)	5 - 10	95 - 100	0 - 2.5	17.5 - 20

Mewn termau cyfun, roedd y tâl i'r cyfarwyddwyr gweithredol a wasanaethodd yn ystod 2015 yn dod i gyfanswm o £833,000. Roedd hyn yn cynnwys taliadau iawndal o £60,453 a £50,998 i ddau gyn-gyfarwyddwr gweithredol, yn ogystal ag unrhyw daliadau yn lle rhybudd.

Yn ogystal â'r uchod, cafodd y swydd Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu ei llenwi gan Alex Hunter, dros dro fel contractwr o asiantaeth. Roedd y symiau a dalwyd, gan gynnwys comisiwn a TAW gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'r asiantaeth am wasanaethau Alex Hunter, yn £130,000 yn 2015. Roedd tâl y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf, sef y Prif Weithredwr a Chofrestrydd (ac eithrio taliadau ychwanegol a thaliadau am wyliau blynyddol nas cymerwyd), 4.4 gwaith (2014: 4.8 gwaith) yn uwch na thâl canolrif y gweithlu, sef £34,351 (2014: £31,927).

Ni thalwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn, ac eithrio i'r Prif Weithredwr ar y pryd.

### Polisi tâl staff

Datblygir y polisi tâl ar gyfer staff gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu ac AD mewn cydweithrediad â'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr gweithredol, cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Adolygwyd y strwythur talu yn 2014 a rhoddwyd strwythur diwygiedig ar waith ar 1 Ebrill 2015 i gefnogi newid sefydliadol a pherfformiad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Disodlodd y strwythur talu newydd y system dalu gynyddol flaenorol, a oedd yn seiliedig ar hyd gwasanaeth yn bennaf, ac mae'n cynnwys methodoleg gwerthuso swydd gadarn, meincnodi marchnad mwy effeithiol a thâl sy'n seiliedig ar berfformiad.

Parhaodd trefniadau pensiwn i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn i ymateb i'r angen i reoli'r gwariant sydd ei angen i ariannu adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn dal i weithredu cynllun pensiwn buddion diffiniedig i staff y cynigiwyd cyflogaeth iddynt erbyn 31 Rhagfyr 2014, ond bydd yr adran hon o'r cynllun ar gau i staff newydd sy'n ymuno o 1 Gorffennaf 2016 ymlaen. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig hefyd sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth ac sy'n bodloni gofynion ymrestru awtomatig. Yn 2014, cymeradwyodd y Cyngor gyfres o newidiadau i gyfraddau cyfraniadau cyflogwr a gweithiwr cyflogedig i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig a chynnydd graddol mewn cyfraniadau gweithiwr cyflogedig i'r cynllun buddion diffiniedig. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2015.

### Niferoedd staff a manylion tâl

Dyma nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, yn ystod y flwyddyn wedi'i ddadansoddi yn ôl swyddogaeth:

	Staff a gyflogir yn barhaol	Eraill	Cyfanswm niferoedd 2015	Cyfanswm niferoedd 2014
Addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau	149	9	158	136
Cofrestru	63	2	65	69
Rheoli polisi a rhanddeiliaid	13	1	14	16
Llywodraethu	13	1	14	12
Adnoddau dynol	10	1	11	7
Sicrhau ansawdd	11	-	11	12
Gwasanaeth Cwynion Deintyddol	9	-	9	9

Aroddiad blynyddol a chyfrifon 2015

Gwasanaethau corfforaethol  
**Cyfanswm**

36	2	38	38
304	16	320	299

Dyma nifer yr aelodau staff, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, yr oedd eu tâl trethadwy, ac eithrio unrhyw daliadau iawndal, yn perthyn i fandiau cyflog uwch:

	Cyfanswm niferoedd 2015	Cyfanswm niferoedd 2014
£60,000 ond o dan £70,000	15	12
£70,000 ond o dan £80,000	2	1
£80,000 ond o dan £90,000	1	3
£90,000 ond o dan £100,000	-	2
£100,000 ond o dan £110,000	2	3
£110,000 ond o dan £120,000	2	1
£150,000 ond o dan £160,000	-	1
£170,000 ond o dan £180,000	1	-

Roedd 18 o aelodau staff o'r rhestr uchod yn aelodau o adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn ac roedd 11 o aelodau staff yn aelodau o adran cyfraniadau diffiniedig y cynllun pensiwn. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr ar gyfer y gweithiwr cyflogedig ar y cyflog uchaf o dan adran buddion diffiniedig y cynllun oedd £28,956 ac, o dan adran cyfraniadau diffiniedig y cynllun, y cyfanswm oedd £7,600.

Y gwahaniaeth canrannol rhwng enillion canolrif menywod a dynion a oedd yn gweithio'n llawn amser yn 2015 oedd 15% (2014: 6%). Mae hwn o gymharu â meincnodi allanol o 19.2% ar 1 Ebrill 2015<sup>3</sup>.

#### Ffioedd a threuliau aelodau'r Cyngor a dalwyd:

	Ffioedd Aelodau		Treuliau Aelodau		Treth ac YG		Cyfanswm	
	2015	2014	2015	2014	2015	2014	2015	2014
	£ '000	£ '000	£ '000	£ '000	£ '000	£ '000	£ '000	£ '000
Catherine Brady*	9	-	1	-	1	-	11	-
Geraldine Campbell	15	15	5	5	3	3	23	23
Michael Carroll	18	18	4	4	5	3	27	25
Rosemary Carter	18	18	5	5	4	4	27	27
Margaret Kellett	15	15	4	5	5	6	24	26
Alan MacDonald	18	18	13	15	7	8	38	41
Kirstie Moons	15	15	5	4	5	4	25	23
William Moyes	55	55	29	25	19	28	103	108
Lawrence Mudford	15	15	0	1	1	1	16	17
Jayendra Patel	15	15	3	3	2	2	20	20
David Smith***	17	17	6	8	3	4	26	29
Neil Stevenson	16	15	8	6	9	6	33	27
Jason Stokes**	-	13	-	2	-	1	-	16
	<b>226</b>	<b>229</b>	<b>83</b>	<b>83</b>	<b>64</b>	<b>70</b>	<b>373</b>	<b>382</b>

\* O 1 Mehefin 2015 ymlaen

\*\* Tan 24 Hydref 2014

<sup>3</sup> Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2015 a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol



*\*\*\* Cafodd ffioedd i David Smith eu talu i gwmni masnachu, Phoenix Dental Castings, y mae'n rheolwr gyfarwyddwr arno, gan gynnwys elfen sy'n gyfwerth â chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr (£2,000 yn 2015 a 2014.) O 1 Ebrill 2016 ymlaen, talwyd ffioedd iddo fel tâl trethadwy, yn unol â holl aelodau eraill y Cyngor*

Mae treuliau sy'n codi'n uniongyrchol o gyflawni dyletswyddau yn cael eu had-dalu yn unol â pholisi treuliau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gweithdrefnau ar gyfer Aelodau'r Cyngor, ac maent yn cydnabod rôl genedlaethol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i o leiaf un aelod fod yn gweithio ym mhob un o'r pedair gwlad yn y DU; a gwahanol gyfrifoldebau aelodau unigol y Cyngor. Mae'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n daladwy yn cynnwys Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar ffioedd Aelodau ac ar gyfer treuliau, yr ystyrir eu bod yn fuddion trethadwy o fath arall.

Mae'r ffigurau yn y tablau uchod wedi cael eu harchwilio.

Ian Brack  
Prif Weithredwr a Chofrestrydd  
9 Mehefin 2016

## 9. Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol

### Caffael

Mae ein dulliau caffael yn seiliedig ar brosesau a gweithdrefnau cadarn i sicrhau arfer gorau a gwerth am arian. Mae'r holl weithgarwch caffael yn cael ei fonitro i sicrhau ein bod yn agored a thryloyw, bod yna gyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol wrth wneud hynny. Byddwn yn parhau i geisio sicrhau arbedion wrth sicrhau bod ein dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni.

### Iechyd a diogelwch

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd iach heb berygl o niwed ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn adolygu iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Yn 2015, cofnodwyd pum damwain fechan yn ein prif swyddfeydd yn Llundain. Darparwyd ystafell cymorth cyntaf newydd tua diwedd 2015 fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu ein pencadlys yn Wimpole Street.

### Amgylcheddol

Rydym yn parhau i ailgylchu'r holl wastraff cyfrinachol a gwastraff cymysg. Anogir staff i ddefnyddio'r sganiwr ac i ffeilio'n electronig. Mae adroddiadau sy'n dangos nifer y tudalennau a argraffir yn cael eu hanfon at bob aelod o staff fel rhan o ymgais i leihau gwastraff.

Cwblhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwaith o ailddatblygu ei bencadlys yn 37 Wimpole Street yn 2015. Mae'r adeilad yn ymgorffori egwyddorion dylunio cynaliadwy, yn defnyddio ynni'n effeithlon ac yn lleihau allyriadau carbon deuocsid. Er enghraifft, mae'r adeilad yn defnyddio goleuadau LED sy'n synhwyro symudiad, felly mae'r goleuadau yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn goleuo a diffodd yn awtomatig. Lleihaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei effaith amgylcheddol trwy adael y swyddfeydd yn 44 Baker Street ym mis Rhagfyr 2015, gyda chyfran sylweddol o'r staff yn gweithio yn 37 Wimpole Street bellach.

### Staff

Ym mis Rhagfyr 2015, roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyflogi 318 o aelodau staff (roedd 326 yn 2014). Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i nifer y swyddi gwag sydd gennym ym mis Ionawr 2016 a'r nifer uchel o aelodau staff sy'n dechrau ym mis Ionawr 2016 (20). Mae cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn yn y niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (sy'n cynnwys staff sy'n gweithio oriau rhan-amser) a chostau staff cysylltiedig i'w gweld yn yr Adolygiad Ariannol.

## Rhyw ac oedran

Mae **62%** o'n gweithwyr yn fenywod (2014: 63%). Mae'r rhai 50+ oed yn cynrychioli **8%** o'r gweithlu (2014 11.5%).

## Ethnigrwydd

Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod **35%** o'n staff o gefndir gwyn a **23%** o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Nid oes gennym ddata ar gyfer y **42%** sy'n weddill, gan mai staff sy'n gyfrifol am gwblhau eu data cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain trwy'r porth hunanwasanaeth ar-lein yn ein cronfa ddata AD, ac nid yw cwblhau data cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ofyniad gorfodol.

Byddwn yn adolygu'r mecanweithiau ar gyfer casglu ac adrodd gwybodaeth monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu â staff i weld a oes unrhyw rwystrau neu bryderon penodol yn ein hatal rhag cwblhau'r data hwn.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae swydd newydd Pennaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i chreu i arwain y gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac i sbarduno gwelliannau yn y maes hwn. Mae strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynllun gweithredu newydd yn cael eu datblygu gydag ymgysylltu ac ymrwymiad yn digwydd ar bob lefel o'r sefydliad.

## Ymgysylltu â staff

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fforwm staff etholedig sy'n cyfarfod bob yn ail fis.

Mae'n cael ei gadeirio gan aelod o'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae'r fforwm yn cynrychioli'r holl dimau yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn trafod materion staff amrywiol, gan gynnwys adolygu polisiâu AD presennol a chyflwyno rhai newydd.

Os cynigir newidiadau a allai effeithio ar yr holl staff, cynhelir cyfarfodydd ymgynghori, boed ymgynghoriad ffurfiol yn ofyniad cyfreithiol ai peidio. Weithiau, cynhelir y cyfarfodydd hyn mewn sesiynau briffio staff chwarterol. Mae'r sesiynau briffio chwarterol yn gyfle hefyd i staff drafod materion a phynciau'n fwy anffurfiol gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Cynhelir arolwg staff bob yn ail flwyddyn hefyd sy'n arwain at gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r canfyddiadau. Cwblhawyd yr arolwg staff diwethaf ym mis Rhagfyr 2015, ac fe'i cyhoeddwyd ynghyd â'r canlyniadau a'r cynllun gweithredu ym mis Chwefror 2016. Mae'r cynllun gweithredu manwl wedi'i gytuno gan y Tîm Rheoli Gweithredol, gan gynnwys y tîm cyfathrebu, a bydd yn cyflawni mewn meysydd amrywiol gydol hanner cyntaf 2016.

Mae gan staff y cyfle hefyd i fynegi eu barn a gofyn cwestiynau i'r Tîm Rheoli Gweithredol ar y fewnwyd yn barhaus. Cyhoeddir cylchlythyr mewnol misol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff a chyfathrebir yn amlach yn ôl y gofyn.

# 10. Adolygiad ariannol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2015

## Dadansoddiad o Incwm a Gwariant yn ôl Swyddogaeth Reoleiddio

Mae'r Cyfrifon ar dudalennau 68 i 102 yn dangos ein hincwm a'n gwariant mewn fformat cyfrifon safonol. Er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i randdeiliaid, mae'r tabl isod yn dangos ein perfformiad yn ôl Swyddogaeth Reoleiddio:

	2015 £'000	2015 £'000	2014 £'000	2014 £'000
<b>Income</b>				
Registration	44,065		31,560	
Overseas Registration	1,828		1,565	
Other operating income	52		15	
		<b>45,945</b>		<b>33,140</b>
<b>Expenditure</b>				
<b>Regulatory activities</b>				
Fitness to Practise and Hearings	25,856		20,681	
Registration	2,355		2,118	
Overseas Registration Exam	1,910		1,926	
Policy and Stakeholder Management	1,324		1,584	
Governance	2,306		1,782	
Operational Excellence	988		1,267	
Quality Assurance	838		1,021	
Dental Complaints Service	567		543	
		<b>36,144</b>		<b>30,922</b>
<b>Support activities</b>				
Finance, HR and CEO	5,274		4,035	
Accommodation and Office Services	2,021		2,116	
Information Technology	2,079		1,950	
Depreciation and Amortisation	1,167		941	
		<b>10,541</b>		<b>9,042</b>
<b>Total Expenditure</b>		<b>46,685</b>		<b>39,964</b>
Investment Income		625		538
Adjustment to tax and social security costs		1,350		-
<b>Surplus/(Deficit) before Taxation</b>		<b>1,235</b>		<b>(6,286)</b>
Taxation		27		(52)
<b>Retained Surplus/(Deficit) after taxation</b>		<b>1,262</b>		<b>(6,338)</b>

### Incwm

Cofrestru

Arholiad Cofrestru Tramor

Incwm gweithredu arall

### Gwariant

#### Gweithgareddau rheoleiddio

Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawriadau

Cofrestru

Arholiad Cofrestru Tramor

Rheoli Rhanddeiliaid a Pholisi

Llywodraethu

Rhagoriaeth Weithredol

Sicrhau Ansawdd

Y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol

**Gweithgareddau cefnogi**

Cyllid, AD a Phrif Swyddog Gweithredol

Gwasanaethau Llety a Swyddfa

Technoleg Gwybodaeth

Dibrisiant ac Amorteiddiad

**Cyfanswm Gwariant**

Incwm o Fuddsoddiadau

Addasiad i gostau treth a nawdd cymdeithasol

**Gwarged/(Diffyg) cyn Treth**

Treth

**Gwarged/(Diffyg) a gadwyd ar ôl treth**

Ariennir y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn bennaf gan ffioedd a delir gan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gorfod cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn unol â'r Ddeddf Ddeintyddion, er mwyn ymarfer deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn talu ffioedd i ni hefyd er mwyn cadw eu henwau ar ein rhestri arbenigwyr.

Yn 2014, esboniwyd y byddai angen i ni gasglu incwm ffioedd ychwanegol i'n galluogi ni i ymdrin â'r cynnydd yn nifer y cwynion a'r achosion Addaswydd i Ymarfer sy'n ymwneud â deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol a dderbyniwyd yn 2014 ac a ragwelwyd ar gyfer 2015. Bu cynnydd o 67% yn nifer y gwrandawiadau Addaswydd i Ymarfer (PPC, PCC a HC) a gwblhawyd yn 2015, o 215 i 319 o achosion.

## Dadansoddiad incwm

Cynyddodd cyfanswm yr incwm gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol i £45.9 miliwn (2014 - £33.1 miliwn). Roedd y cynnydd o ganlyniad i'r rhesymau canlynol:

- Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2014, cymeradwyodd y Cyngor gynnydd yn y ffi gadw flynyddol (ARF) sy'n daladwy o £576 i £890 ar gyfer Deintyddion a gostyngiad o £120 i £116 ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol.
- Ym mis Gorffennaf 2015, cododd y ffioedd am sefyll rhan 1 a rhan 2 o'r arholiad cofrestru tramor i £806 a £2,929 i alluogi'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i adennill ei gostau, sy'n rhywbeth nad yw'n llwyddo i'w wneud fel arfer, gan arwain at £0.3 miliwn o incwm ychwanegol.

## Dadansoddiad gwariant

Cynyddodd cyfanswm y gwariant i £46.7 miliwn yn 2015 (2014 - £40.0 miliwn) am y rhesymau canlynol:

- Mae costau addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau wedi cynyddu £5.2 miliwn i £25.9 miliwn (£2014 - £20.7 miliwn) oherwydd:
  - Arweiniodd cynnydd yn nifer yr achosion newydd a atgyfeiriwyd ar gyfer erlyniad o 403 yn 2014 i 431 o achosion yn 2015 at gynnydd o £2.6 miliwn yng nghost erlyn achosion Addasrwydd i Ymarfer gan y tîm erlyniadau cyfreithiol mewnol (ILPs) a darparwyr cyfreithiol allanol.
  - Arweiniodd cynnydd o 50% yn nifer y diwrnodau gwrandawiadau o 1,246 o ddiwrnodau yn 2014 i 1,866 o ddiwrnodau yn 2015, ynghyd â chynnydd yng nghost cyfartalog pob diwrnod gwrandawiadau yn bennaf oherwydd cynnydd yn y ffi a godir gan aseswyr cyfreithiol, at gynnydd o £2.3 miliwn mewn gwariant.
  - Arweiniodd cynnydd yn yr adnoddau a ddefnyddiwyd i helpu'r tîm gwaith achosion i wneud gwelliannau i'r broses ac i brosesu achosion yn fwy cyflym yn unol â safonau perfformiad, wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan arbedion o ganlyniad i ddiddymu'r tîm ôl-groniad gwaith achosion, at gynnydd net o £0.3 miliwn mewn gwariant.
  - Cynnydd o £0.4 miliwn yng nghost sicrhau cyngor arbenigol ar achosion yn ymwneud â chwynion ynghylch triniaeth glinigol.
  - Gostyngiad o £0.4 miliwn yng nghost swyddogaeth y Pwyllgor Ymchwilio oherwydd cost ymarfer recriwtio untro ar gyfer aelodau newydd yn 2014.
- Mae'r cynnydd o £0.2 miliwn mewn costau cofrestru yn cael ei wrthbwysu gan ostyngiad o £0.2 miliwn mewn costau rhagoriaeth weithredol oherwydd effaith ailstrwythuro'r ddau dîm.
- Roedd y cynnydd o £1.2 miliwn mewn costau Cyllid, AD a'r Prif Swyddog Gweithredol yn bennaf oherwydd y gost o gwblhau'r rhaglen newid sefydliadol a ffioedd proffesiynol yn ymwneud â'r hawliad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am ad-daliad o dreth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y flwyddyn flaenorol.
- Roedd cynnydd o £0.1 miliwn mewn costau TG oherwydd newid yn nhriniaeth rhai costau a oedd yn arfer cael eu categorio fel gwariant cyfalaf.

- Mae costau dibrisiant ac amorteiddiad wedi cynyddu £0.2 miliwn, sy'n adlewyrchu'r gwariant ar ailddatblygu 37 Wimpole Street.

Gydol 2015, parhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol â mentrau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd newydd o £0.6 miliwn yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, sicrhawyd arbedion parhaus o £3.8 miliwn o brosiectau a ddechreuwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol. Felly, yn 2015 cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd o £4.4 miliwn, sef 10% o sylfaen cost 2015, gan arwain at arbedion cronol o tua £14.8 miliwn dros bum mlynedd. Gydol y broses o nodi arbedion effeithlonrwydd, mae ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i sicrhau nad yw rhoi'r mesurau ar waith yn peryglu diogelwch y cyhoedd. Yn wir, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau i ddefnyddio'r arbedion hyn i gyllido rhaglen o welliannau i'r swyddogaeth addasrwydd i ymarfer.

Yn 2012, daeth y trafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi am statws treth aelodau ein pwyllgor, panelwyr ac arolygwyr i ben. Cytunwyd y dylid trin y rhan fwyaf fel gweithwyr hunangyflogedig at ddibenion treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol ac nid yw'n ofynnol bellach i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ddiodynnu treth incwm na rhoi cyfrif am Gyfraniadau Yswiriant Gwladol ar eu ffioedd neu eu treuliau. Yn yr un flwyddyn, gwnaed cais i ad-dalu taliadau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y flwyddyn flaenorol a thaliadau ein Cytundeb Setliad Cynllun Talu Wrth Ennill. Yn ystod 2016, cafodd y cais ei dderbyn ac rydym wedi cyflawni ad-daliad net o £1.1 miliwn.

## **Rhagolygon**

Yn 2014, gofynnodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol am ddiwygiadau deddfwriaethol a fydd yn ein galluogi i gyflwyno gwelliannau sylweddol i'n prosesau Addasrwydd i Ymarfer yn 2016. Mae'r newidiadau'n effeithio ar gam ymchwilio'r broses Addasrwydd i Ymarfer ac mae cynlluniau eisoes ar waith i ailstrwythuro'r rhannau perthnasol o'r sefydliad i sicrhau ein bod yn symleiddio ein prosesau mewn ffordd sy'n gwella ein penderfyniadau a sicrhau arbedion cost sylweddol yn 2017 a thu hwnt.

Bydd mentrau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn parhau yn 2016, ac mae'r Cyngor wedi gofyn i'r sefydliad gyrraedd targedau heriol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd newydd. Bydd mesurau sydd eisoes wedi'u nodi a'u rhoi ar waith yn cyfrannu £2.6 miliwn yn 2016, a bydd mesurau newydd yn sicrhau arbedion ychwanegol o £0.9 miliwn, gan gynhyrchu cyfanswm o £3.5 miliwn. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y broses o nodi arbedion effeithlonrwydd yn cyd-fynd â'n rôl diogelwch cleifion.

Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i ailddatblygu 37 Wimpole Street ym mis Medi 2012. Ar ôl cwblhau'r broses gaffael, dechreuodd y prif contractwr ar y gwaith ar y safle ym mis Medi 2013 a chwblhawyd y prosiect ym mis Medi 2015, am gost derfynol o £9.0 miliwn.

Nid yw'r brydles bresennol ar 37 Wimpole Street yn dod i ben tan 2057 ac mae'n cael ei chadw ar rent bychan o £6,790 y flwyddyn ar hyn o bryd.

## **Cronfa Bensiwn**

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, prisiodd actiwari'r cynllun pensiwn, Quantum Advisory, adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2015. Yn ôl eu dadansoddiad, cafwyd cynnydd actiwaraid net o £3.6 miliwn yng ngwerth cronfa adran buddion diffiniedig y cynllun yn 2015, yn erbyn yr hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd. Mae hyn yn bennaf oherwydd symudiadau aelodaeth ffafriol dros y flwyddyn, gan arwain at lai o ymrwymiad i ariannu. Yn y cyfamser, roedd taliadau o'r cynllun £0.2 miliwn yn fwy na thaliadau i'r cynllun a'r llog a dderbyniwyd. O ganlyniad, cafwyd cynnydd cyffredinol o £3.4 miliwn yn y cynllun pensiwn, gan gynyddu gwarged y pensiwn IAS 19 i £5.9 miliwn (2015) o £2.5 miliwn (2014). Nid yw hyn yn ymwneud â'r prisiad teirblwydd o adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2015, sy'n nodi gwarged lefel ariannu actiwaraid o £1.5 miliwn ac a argymhellodd y dylai'r lefelau cyfraniad cyflogwr i adran buddion diffiniedig y cynllun gael eu gosod ar 18% o 1 Ebrill 2016 tan y prisiad teirblwydd nesaf.

## **Perygl hylifedd**

Cynyddodd balansau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i £33.8 miliwn (2014 - £31.9 miliwn). Mae'r balansau hyn yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt yn Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst. Mae lefelau arian yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbynebaw'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fydd deintyddion yn talu eu ffioedd cadw blynyddol, ac ym mis Gorffennaf, pan fydd gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd nhw. Mae gwariant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i rannu'n gyfartal gydol y flwyddyn.

Yn 2012, penododd y Cyngor Smith & Williamson i fuddsoddi £12 miliwn o'r balansau arian sydd ar gael mewn cymysgedd o ecwitiau a gwarantau llog sefydlog. Cafodd gwarantau rhestredig ac ymddiriedolaethau unedol oedd ym meddiant y Cyngor eu trosglwyddo i reolaeth Smith & Williamson hefyd. Yn 2014, datododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol £6.1 miliwn o fuddsoddiadau er mwyn hybu balansau arian dros 6 mis diwethaf 2014. Ar ôl derbyn ffioedd cadw blynyddol ym mis Rhagfyr 2014, cafwyd y £6.1 miliwn ei ail-fuddsoddi ym mis Ionawr 2015 a chafodd £11.5 miliwn arall ei waredu gydol 2015, gan arwain at ostyngiad net o £5.4 miliwn yng ngwerth buddsoddiadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn fodlon nad yw'n agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol. Mae'r balansau nad oes angen eu defnyddio at ddibenion gweithredol tymor byr yn cael eu buddsoddi am dymor o dri mis fel blaendal marchnad ariannol a chaiff hyn ei adolygu a'i adnewyddu ar ddiwedd pob tymor.

## **Cronfeydd wrth gefn**

Adolygwyd a chytunwyd ar y polisi Cronfeydd Wrth Gefn gan y Cyngor yn 2015. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- a. amcanion y Cyngor wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a rheoleiddio
- b. risgiau i incwm a gwariant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- c. rhaglenni gwariant cyfalaf sylweddol arfaethedig

Wrth osod lefelau targed, ystyriodd y Cyngor fod cronfeydd wrth gefn o fewn ystod o bedwar i chwe mis o'r gwariant gweithredu blynyddol yn briodol. Mae'r ystod hwn yn amodol ar



ystyriaeth flynyddol gan Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad y Cyngor pan fydd yn argymhell cyllideb y flwyddyn ganlynol i'r Cyngor.

### **Archwilwyr allanol**

Mae'r cyfrifon wedi'u harchwilio gan ein harchwilwyr, haysmacintyre o 26 Red Lion Square, Llundain WC1R 4AG ac yn unol â Deddf Deintyddion 1984 gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Syr Amyas C E Morse, National Audit Office, 157-197 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP. Mae'r adroddiad archwilio annibynnol i'w weld ar dudalen 69 o'r adroddiad hwn, ac mae tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 71.

### **Datgelu gwybodaeth archwilio i'r archwilwyr**

Cyn belled ag y gwyddom ni, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd pob cam posibl i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno hefyd.

# 11. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr

Dan Ddeddf Deintyddion 1984 mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor yn ogystal â'i incwm a'i wariant, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu wneud y canlynol:

- cydymffurfio â'r penderfyniad ar gyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisiau cyfrifyddu addas ar waith yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y penderfyniad ar gyfrifon, wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol gwneud hynny.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol i'r Cyngor am briodoldeb a rheoleidd-dra ei gyllid, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor wedi ystyried y gofynion uchod ac o'r farn lle bont yn berthnasol i'r Cyngor, y cydymffurfiwyd a hwy dan bob amgylchiad materol, gydag unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dilyn.

## 12. Datganiad llywodraethu

### Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal trefniadau llywodraethu ac am sicrhau bod system reoli fewnol gadarn ar waith sy'n cefnogi polisiâu, nodau ac amcanion y Cyngor ac yn diogelu asedau'r sefydliad. Fe'm penodwyd yn Swyddog Cyfrifyddu gan y Cyfrin Gyngor ar 1 Chwefror 2016.

Wrth wneud fy asesiad, rwyf wedi dibynnu ar adroddiadau a thrafodaethau ag archwilwyr mewnol, gwaith monitro parhaus ar ein cofrestri risg a'r sicrwydd a roddwyd gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu blaenorol, Evlynne Gilvarry, a oedd yn y swydd gydol 2015.

Bwriedir i'r system reoli fewnol a ddefnyddir ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol reoli risgiau, gan gydnabod nad yw'n bosibl eu dileu yn gyfan gwbl. Yn 2015, sefydlwyd fframwaith rheoli risg newydd i ddisodli'r polisi rheoli risg a oedd yn dyddio yn ôl i 2012. Mae'r fframwaith newydd yn darparu canllawiau mwy cynhwysfawr ar reoli risg, monitro ac adrodd ar gyfer pawb o'r staff.

### Trefniadau llywodraethu

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gorff corfforaethol sydd wedi'i sefydlu o dan Ddeddf Deintyddol 1984 fel y'i diwygiwyd. Mae gan y Cyngor ddeuddeg aelod, sef chwe gweithiwr deintyddol proffesiynol a chwe aelod lleig, ac un o'r rhain yw'r Cadeirydd. Penododd y Cyfrin Gyngor aelod cofrestredig newydd o'r Cyngor, a dechreuodd ei gyfnod o wasanaeth ar 1 Mehefin 2015. Mae rhagor o wybodaeth am aelodau'r Cyngor ar gael yn Adran 6 o'r Adroddiad hwn.

Gan nad yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i ddsbarthu fel Corff Hyd Braich, nid oes rhaid i ni gydymffurfio a'r *'Corporate governance in central government departments: Code of practice 2011'*. Fodd bynnag, rydym yn ystyried yr egwyddorion da a nodir yn y ddogfen wrth ddatblygu ac adrodd ar ein trefniadau llywodraethu.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau craidd yn effeithlon ac mae diogelwch cleifion yn gwbl ganolog i'w waith. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu strategaeth a chyfeiriad corfforaethol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac am sicrhau bod pob penderfyniad pwysig yn cyd-fynd â'r strategaeth. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau pwysig ar bolisi, ac am sicrhau a monitro effeithiolrwydd prosesau rheoli ariannol a rheoli risg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol hefyd:

- pennu parodrwydd y sefydliad i wynebu risg;
- cymeradwyo'r polisi rheoli risg a sicrhau bod y system rheoli risg sydd ar waith yn cynnwys gweithdrefnau a rheolaethau effeithiol;
- craffu ar y gwaith o reoli risgiau strategol a sicrhau bod y Tîm Gweithredol yn atebol;
- nodi a chynghori ar risgiau;
- sicrhau bod y Tîm Gweithredol yn atebol am reoli perfformiad.

Mae'r Cyngor wedi goruchwyllo'r broses o roi rhaglen o newid sefydliadol ar waith er mwyn gwella perfformiad a datblygu sefydliad mwy effeithiol a thryloyw. Mae'r gwaith wedi parhau ar wella modelau adrodd a rhagfynegi. Cymeradwywyd strategaeth gorfforaethol 2016-2019 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan y Cyngor yn 2015. Mae'n canolbwyntio ar bedair prif elfen o'n gwaith: cleifion, gweithwyr proffesiynol, partneriaid a pherfformiad. Cwblhawyd cam

cyntaf ac ail gam y rhaglen newid sefydliadol yn 2015, ac mae gweddill y rhaglen wedi'i chynnwys yn y cynllun busnes ar gyfer 2016.

### **Trosolwg y Cyngor o risgiau strategol**

Mae'r Cyngor yn monitro risgiau strategol allweddol yn barhaus, gan adolygu'r gofrestr risgiau strategol ar ôl pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad perfformiad chwarterol hefyd, ar ffurf cerdyn sgorio cytbwys. Mae'r cerdyn sgorio wedi'i gydbwysu yn canolbwyntio ar gyfres o feysydd perfformiad allweddol gan gynnwys:

- Safbwynt ariannol – i roi syniad o werth am arian;
- Safbwynt gwasanaeth cwsmeriaid - i ddangos safon y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i randdeiliaid allanol;
- Safbwynt proses fusnes mewnol – i ddangos pa mor dda y mae prosesau a phrosiectau allweddol yn cael eu rheoli;
- Safbwynt adnoddau dynol – i bennu a oes adnoddau digonol i wneud gwaith y sefydliad.

Mae'r dogfennau hyn yn darparu gwybodaeth reoli i'r Cyngor sy'n llywio ei waith o wneud penderfyniadau ac yn ei alluogi i fonitro cynnydd yn erbyn y strategaeth gorfforaethol a'r cynllun busnes, gan sicrhau bod y weithrediaeth yn atebol am ei pherfformiad. Mae unrhyw bapurau y mae gofyn i'r Cyngor wneud penderfyniadau yn eu cylch yn nodi'r risgiau strategol perthnasol yn glir fel bod y Cyngor yn gallu eu hystyried wrth wneud ei benderfyniad.

### **Effeithiolrwydd y Cyngor**

Cyflwynodd y Cyngor system arfarnu newydd ar gyfer aelodau unigol o'r Cyngor yn 2015. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau gan yr aelodau eu hunain, cymheiriaid a'r Cadeirydd. Y Cadeirydd oedd yn gyfrifol am gynnal arfarniadau aelodau'r Cyngor. Defnyddiwyd proses debyg i arfarnu Cadeirydd y Cyngor hefyd, ac roedd y broses hon yn cynnwys hunanadolygiad, adborth gan gadeiryddion pwyllgorau (lleyg), nifer fach o aelodau cofrestredig y Cyngor a'r Tîm Rheoli Gweithredol. Cynhaliwyd yr arfarniad gan unigolyn y tu allan i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a datblygwyd amcanion wedyn ar gyfer ail hanner cyfnod gwasanaeth y cadeirydd. Cynhaliwyd cyfres o weithdai wedi'u hwyluso i fynd i'r afael â gwella effeithiolrwydd y Cyngor yn ei gyfanrwydd a gwella dulliau o weithio gyda'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Mae presenoldeb aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd Cyngor yn cael ei gofnodi yn y cofnodion, sydd ar gael ar ein gwefan. Mae tabl o bresenoldeb yr aelodau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

### **Pwyllgorau anstatudol**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r pum pwyllgor anstatudol canlynol:

- Pwyllgor Penodiadau
- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- Bwrdd Polisi ac Ymchwil

Mae pob un o'r pum pwyllgor yn cynnwys aelodau cofrestredig ac aelodau lleyg o'r Cyngor. Mae'r Pwyllgorau yn adrodd i'r Cyngor ar eu gwaith ar ôl pob cyfarfod, ac mae pob Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar ddiwedd bob blwyddyn sy'n crynhoi ei berfformiad yn erbyn ei raglen waith.

## Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Un o bwyllgorau anstatudol y Cyngor yw'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a'i amcan allweddol yw monitro cywirdeb datganiadau ariannol, adolygu systemau llywodraethu, rheoli mewnol a rheoli risg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac adolygu'r gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys ystyried a gyflawnwyd y camau gweithredu a nodwyd mewn adroddiadau archwilio. Hefyd, mae'r pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o lunio adroddiad blynyddol a chyfrifon cywir i'w cymeradwyo gan y Cyngor.

Mae'r pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn cael sicrwydd am drefniadau rheoli risg gan yr archwilwyr mewnol. Hefyd, mae'r pwyllgor yn adolygu statws a thueddiadau pob risg yn y gofrestr risgiau strategol. Yn 2015, goruchwyliodd y pwyllgor ddatblygiad fframwaith rheoli risg newydd sy'n cynnwys trefniadau a sicrwydd rheoli risg. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys darparu hyfforddiant rheoli risg, alinio'r broses o adrodd ar reoli risg a pherfformiad, adolygu'r tîm cydymffurfiaeth fewnol a drafftio rhaglen archwilio mewnol graidd. Cwblhawyd y gwaith hwn fel rhan o'r ffrwd waith cydymffurfiaeth fewnol a rheoli risg yn y rhaglen newid sefydliadol. Bydd y pwyllgor yn derbyn cymorth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2016 i gynnal adolygiad o'i effeithiolrwydd.

Hefyd, mae'r pwyllgor yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban, a pholisïau chwythu'r chwiban ar gyfer staff, aelodau ac aelodau cyswllt o'r Cyngor. Cyflwynwyd llinell gymorth chwythu'r chwiban drwy'r elusen *Public Concern at Work* yn 2015, sy'n galluogi pobl i fynegi pryderon am ymarfer deintyddol neu unrhyw fater arall yn gyfrinachol.

## Tîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan staff o dan arweiniad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, sy'n Swyddog Cyfrifyddu hefyd, ac aelodau eraill o'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae aelodau'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gweithredu fel cyfarwyddwyr gweithredol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Maent yn rhannu cyfrifoldeb am gamau gweithredu a phenderfyniadau a wneir, waeth beth fo'u cyfrifoldebau rheoli llinell unigol.

Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am:

- nodi'r risgiau strategol a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel gywir gydag atebolrwydd clir;
- nodi a gwerthuso risgiau wrth iddynt ddigwydd o fewn swyddogaethau a chyfarwyddiaethau;
- adolygu ac adrodd ar risgiau i'r Cyngor ac agweddau eraill ar y model llywodraethu;
- adrodd i'r Cyngor ar reoli risgiau'n effeithiol fel y maent yn berthnasol i ddatblygu polisi, perfformiad gweithredol a defnyddio adnoddau;
- cynllunio a gweithredu'r polisi rheoli risg a sicrhau arferion rheoli risg da;
- sicrhau bod y cofrestr risgiau strategol, gweithredol a phrosiect yn gyfredol, perthnasol a chynhwysfawr.

Adolygwyd swyddogaeth a strwythur cyfarfodydd y Tîm Rheoli Gweithredol yn 2015. Erbyn hyn, mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn cyfarfod yn ffurfiol fel bwrdd yn rheolaidd. Mae cynllun gwaith wedi'i greu i sicrhau bod y cyfarfodydd yn trafod prif feysydd gwaith y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae papurau penderfyniadau ar gyfer bwrdd y Tîm Rheoli Gweithredol yn cynnwys dadansoddiad o'r risgiau allweddol. Mae'r Tîm yn cyfarfod yn anffurfiol yn yr wythnosau rhwng cyfarfodydd, ac mae cyfarfodydd eithriadol yn cael eu galw yn ôl y gofyn.

Mae'r gofrestr risgiau strategol yn seiliedig ar gofrestri risgiau gweithredol. Yn dilyn penodiad Rheolwr Risgiau, cynhelir adolygiad llawn o'r swyddogaeth rheoli risg ddechrau 2016 er mwyn sicrhau bod elfennau strategol a gweithredol y fframwaith yn briodol a bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson ledled y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Bydd hyn yn sicrhau bod modd nodi'r holl risgiau yn amserol, eu gwerthuso'n gywir ac yn gyson, a'u rheoli'n briodol yn unol â throthwyon wynebu risg cymeradwy.

Ceir rhagor o gefnogaeth wrth adolygu risg strategol drwy adroddiadau archwiliadau a gwblheir gan ein harchwilwyr mewnol. Mae hyn yn rhoi ffynhonnell sicrwydd annibynnol sy'n ein helpu i nodi camau a fydd yn gwella'r gwaith o liniaru'r risg.

### **Datgelu'r prif risgiau ac ansicrwydd**

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithredu argymhellion ar gyfer gwella a nodwyd drwy waith craffu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol. Yn 2014/15, cyhoeddwyd Adolygiad o Berfformiad ym mis Mehefin 2015, a daeth i'r casgliad bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn bodloni dwy o'r deg safon Addasrwydd i Ymarfer (y safon gyntaf a'r ail safon). Mae rhagor o waith sylweddol wedi'i wneud fel rhan o'r rhaglen wella Addasrwydd i Ymarfer, sy'n cael ei goruchwyllo gan aelodau'r Cyngor a'r tîm gweithredol. Mae'r rhaglen wella Addasrwydd i Ymarfer yn cynnwys deg ffrwd waith neu brosiect â blaenoriaeth sy'n ceisio cael yr effaith fwyaf ar wella effeithlonrwydd, amseroldeb a phrofiad y prosesau Addasrwydd i Ymarfer. Mae'r Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer yn cyflwyno adroddiadau cynnydd yn rheolaidd i'r tîm gweithredol ac i sesiwn agored y Cyngor. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn disgwyl gweld gwelliant o ran cyrraedd safonau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar ôl adolygiad 2015/16.

Un o'r ffrydiau gwaith allweddol yn y rhaglen wella Addasrwydd i Ymarfer yw cyflwyno archwilwyr achos. Bydd gan archwilwyr achos y pŵer i gyflawni'r holl swyddogaethau gwneud penderfyniadau sy'n cael eu cyflawni gan y Pwyllgor Ymchwilio ar hyn o bryd, a bydd ganddynt bŵer ychwanegol i gytuno ar ymrwymadau â'r rhai sydd wedi cofrestru. Hefyd, bydd y pwerau newydd yn golygu bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gallu nodi a rheoli risg yn gynt, gan sicrhau bod yr achosion mwyaf difrifol yn mynd ymlaen i wrandawriad llawn a bod achosion llai difrifol yn cael eu datrys yn gynharach yn y broses na'r hyn sy'n bosibl o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Roedd y Cyngor yn disgwyl gweld archwilwyr achos yn dechrau ar eu gwaith yn 2015, ond roedd ansicrwydd mawr yn ystod 2015 ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r Gorchymyn Adran 60 gofynnol. Effeithiodd hyn ar gynlluniau i gyflwyno archwilwyr achos, gan oedi gwelliannau yng nghynhyrchiant ac amseroldeb y broses Addasrwydd i Ymarfer. Hefyd, bydd y Gorchymyn Adran 60 yn diwygio ein deddfwriaeth fel bod modd atgyfeirio achosion i'r Pwyllgor Gorchymynion Interim ar wahanol gamau yn y broses, a bod modd adolygu penderfyniadau Addasrwydd i Ymarfer.

Ymgynghoriad 2014 ar lefel y ffi gadw flynyddol ar gyfer deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar gyfer 2015 oedd y tro cyntaf i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ymgynghori ar godi ffioedd. Yn dilyn y broses hon, lansiodd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain her gyfreithiol i benderfyniad y Cyngor i godi'r ffi gadw flynyddol. Ystyriodd y Cyngor y gwersi a ddysgwyd o'r broses ymgynghori a her Cymdeithas Ddeintyddol Prydain i benderfyniad y Cyngor i godi'r ffi gadw flynyddol. Ym mis Hydref 2015, cyflwynodd y Cyngor ymgynghoriad ar lefelau'r ffi gadw flynyddol ar gyfer deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar gyfer 2016, a oedd yn cynnig cadw'r ffi gadw flynyddol ar gyfer deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar yr un lefelau â 2015. Cefnogwyd y cynigion gan gyllideb fanwl yn seiliedig ar fodel rhagfynegi helaeth, yn enwedig o safbwynt llif gwaith Addasrwydd i Ymarfer. Deilliodd nifer o themâu allweddol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn mynegi pryderon ynglŷn â lefel bresennol y ffi gadw flynyddol a pholisi cronfeydd a pherfformiad gweithredol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Trafodwyd y themâu allweddol hyn yn fanwl gan y Cyngor ar 23 Tachwedd 2015.

Cymeradwyodd y Cyngor Ffi Gadw Flynyddol 2016 ar lefelau 2015 ar sail yr angen i fuddsoddi yn y sefydliad er mwyn gwella perfformiad yn erbyn safonau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol a sicrhau bod cronfeydd ac adnoddau arian parod digonol ar gael. Byddai hyn yn golygu bod modd i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol weithredu am ryw dri mis erbyn diwedd 2016 heb orfod benthyca arian.

Yn ystod 2015, cwblhaodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ei ymchwiliad i faterion a atgyfeiriwyd iddo gan chwythwr chwiban. Dyma'r materion a oedd yn destun ymchwiliad:

1. Y ffordd y mae pwyllgorau ymchwilio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn:

- a) rheoli'r prosesau a'r gefnogaeth i Bwyllgorau Ymchwilio'r Cyngor ers cyhoeddiad adroddiad Ymchwiliad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol '*An investigation into concerns raised by the former Chair of the General Dental Council* (Chwefror 2013)';
- b) ymateb i'r argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, sef adolygu'r prosesau a'r gefnogaeth oedd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar waith ar gyfer ei bwyllgorau ymchwilio, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer casglu a monitro'r adborth a dderbynnir.

2. Digonolrwydd polisi chwythu'r chwiban y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r ffordd y rhoddir y polisi hwn ar waith, fel y gwelwyd yn:

- a) ein hymateb i ddatgeliad gan chwythwr chwiban am y ffordd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn rheoli ac yn cefnogi'r Pwyllgor Ymchwilio;
- b) sut y gwnaethom reoli cwyn gan y chwythwr chwiban am driniaeth anffafriol oherwydd ei ddatgeliad.

Cyhoeddwyd adroddiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar 21 Rhagfyr 2015. Mae holl aelodau'r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Penodiadau a'r tîm gweithredol wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, ac mae'r Cyngor wedi cytuno ar gynllun gweithredu cynhwysfawr i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion allweddol yr adroddiad. Roedd adroddiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn argymhell y dylid ymddiheuro'n ffurfiol i'r chwythwr chwiban am ddatgelu ei enw mewn ffordd amhriodol. Mae Cadeirydd y Cyngor wedi ymddiheuro i'r unigolyn yn ffurfiol.

Bydd cynnydd yn erbyn y camau gweithredu eraill yn cael ei fonitro'n agos gan y tîm gweithredol, y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Penodiadau yn ystod 2016. Mae Cadeirydd y Cyngor wedi ysgrifennu at yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, yr Adran Iechyd a'r Pwyllgor Dethol ar Iechyd gan amlinellu'r camau sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn ymateb i'r adroddiad hwn. Mae ymateb y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'r adroddiad, a'r cynllun gweithredu, ar gael ar ein gwefan. Hefyd, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol wedi nodi a thrafod nifer o bwyntiau dysgu i'w hystyried yn ymwneud â'r ymchwiliad a'r ymateb iddo.

### **Achosion o dorri rheolau data a diogelwch gwybodaeth**

Yn 2015, cyflwynwyd newidiadau i'r broses o ddsbarthu ac adrodd ar ddigwyddiadau diogelwch data, ac mae'r newidiadau hyn wedi gwella ymwybyddiaeth gorfforaethol o faterion yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth. O ganlyniad, mae digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n gyflym, gan sicrhau bod modd lleihau unrhyw niwed yn fwy effeithiol.

O dan y broses newydd, mae angen hysbysu'r tîm gwybodaeth am bob digwyddiad a chyflwyno asesiad risg a baratowyd sy'n dosbarthu'r digwyddiad ar sail meini prawf risg a

gyhoeddwyd. Mae'r tîm gwybodaeth yn ymateb i ddigwyddiadau drwy awgrymu camau lliniaru, os nad ydynt wedi'u rhoi ar waith eisoes, ac mae'n cofnodi'r rheswm am y digwyddiad yn ganolog. Mae'r tîm gwybodaeth yn gallu nodi tueddiadau a'r hyn a ddysgwyd ac awgrymu gwelliannau i bolisiau a systemau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r grŵp llywodraethu gwybodaeth yn ystyried pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch data erbyn hyn, ynghyd â'r tueddiadau a'r hyn a ddysgwyd sydd wedi'u nodi gan y tîm gwybodaeth. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi ymrwymo i ddysgu gwersi sy'n deillio o achosion o dorri rheolau, gan gyflwyno gwelliannau gweithredol a rhoi systemau, mesurau diogelwch a hyfforddiant gwell ar waith i leihau risgiau yn y maes hwn.

Roedd 39 achos o dorri rheolau data yn 2015. Aseswyd pob un o'r achosion gan y rheolwr gwybodaeth, a ddaeth i'r casgliad nad oedd unrhyw un yn ddigon difrifol i'w adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, er bod gwersi unigol a chorfforaethol wedi'u nodi a'u gweithredu.

### *Ymchwiliadau ffurfiol*

Yn 2015, aeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ati i ystyried cwyn ffurfiol yn ymwneud â chais Rhyddid Gwybodaeth am fanylion ffioedd cyfreithiol a ysgwyddwyd mewn perthynas â Phwyllgor Ymchwilio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roeddem wedi datgelu rhywfaint o'r wybodaeth y gwnaed cais amdani ond wedi atal gwybodaeth arall ar sail buddiannau masnachol. Cytunodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth â chwyn yr unigolyn, gan ddod i'r casgliad nad oedd yr esemptiad buddiant masnachol yn berthnasol. Gofynnodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ddatgelu'r wybodaeth a gafodd ei hatal yn flaenorol i'r sawl a gyflwynodd y cais, ac mae hynny wedi digwydd.

### *Hunan-adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth*

Nododd yr adroddiad blynyddol diwethaf fod dau hunanadroddiad a wnaed i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddiwedd 2014 ar waith o hyd. Cwblhaodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y gwaith o ystyried y materion cydymffurfio a oedd yn deillio o'r digwyddiadau hyn yn 2015. Er bod gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol bolisiau ysgrifenedig digonol, dywedodd y Comisiynydd Gwybodaeth ei fod yn pryderu am lefel yr hyfforddiant a ddarparwyd. O ganlyniad, roedd angen i'r Prif Weithredwr lofnodi ymrwymiad, ac aethom ati i ymrwymo i gyflwyno tair elfen o hyfforddiant unigol i'r holl staff, a rhoi'r manylion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r ymrwymiad i'w weld ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac fe'i hatodwyd i Adroddiad Blynyddol Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data 2014/15, a gafodd ei ystyried gan y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2015 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn unol â'r ymrwymiad, roedd elfen gyntaf ac ail elfen yr hyfforddiant wedi'u cyflwyno a'u cwblhau gan holl weithwyr cyflogedig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol erbyn dechrau 2016. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddiant fanylach a ddatblygwyd gyda hyfforddwr allanol. Mae'n ofynnol i'r staff Addaswydd i Ymarfer a'r staff cofrestru fynychu'r sesiynau hyfforddi hyn er mwyn i unrhyw risg y bydd grwpiau hyn yn trafod data sensitif a symiau mawr o ddata yn cael eu lleihau'n ddigonol. Darparwyd adran fyrrach a mwy cyffredinol ar gyfer gweddill y sefydliad.

Hefyd, mae hyfforddiant ar ddiogelwch gwybodaeth wedi'i ddarparu ar gyfer aelodau panel Addaswydd i Ymarfer, aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio ac aelodau cyswllt eraill.

### *Rhyddid Gwybodaeth*



Cafodd y gwaith o integreiddio ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth i mewn i system rheoli achosion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei gwblhau yn 2015.

Mae diweddariadau blynyddol yn parhau i gael eu darparu i'r Cyngor a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn 2015, cofnodwyd 512 o geisiadau am wybodaeth, 396 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a 106 o geisiadau gwrthrych am wybodaeth.

### *Hyfforddiant*

Roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau i ddarparu hyfforddiant cynefino ar ddiogelwch gwybodaeth ar gyfer unrhyw staff newydd yn 2015. Derbyniodd 91 o unigolion hyfforddiant yn 2015.

Mae'r sesiynau cynefino yn amlygu pwysigrwydd prosesu gwybodaeth (yn enwedig gwybodaeth sensitif) yn ofalus ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu. Maent yn helpu unigolion i ddeall y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Diogelu Data, rôl Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y peryglon wrth drafod data a beth i'w wneud mewn achos honedig neu achos gwirioneddol o dorri rheolau data. Darperir cyngor ymarferol ar osgoi torri rheolau data, ac mae staff yn cael gwybod am wybodaeth sefydliadol fel polisïau Diogelwch Gwybodaeth, yn ogystal â mesurau diogelu gweithredol fel y system rhannu ffeiliau corfforaethol a gyflwynwyd ar ddiwedd 2014.

Yn ogystal â'r hyfforddiant a ddeilliodd o'r ymrwymiad, mae pob cynrychiolydd Rhyddid Gwybodaeth newydd yn derbyn hyfforddiant cefndir ychwanegol a gafodd ei adolygu a'i ddiwygio yn 2015 ac sy'n cael ei ddarparu erbyn hyn gan gyfreithiwr corfforaethol.

### **Gwasanaethau Archwilio Mewnol**

Daeth tymor tair blynedd cychwynnol Grant Thornton UK LLP, archwilwyr mewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, i ben ym mis Rhagfyr 2014. Cafodd y cytundeb hwn ei ymestyn bob mis yn ystod cyfnod cwblhau ymarferiad caffael newydd. Yn ei gyfarfod ym mis Mai 2015, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio a Risg gymeradwyo penodi Mazars LLP fel archwilwyr mewnol newydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o 1 Mehefin 2015 ymlaen. Cafodd y cwmni gytundeb tair blynedd yn y lle cyntaf, a bydd modd ymestyn hwnnw os yw'r ddwy ochr yn cytuno.

Cyflwynodd Grant Thornton ei adroddiad blynyddol olaf i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Gorffennaf 2015. Ar sail cwmpas adolygiadau archwilio mewnol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn, rhoddwyd sicrwydd 'cyfyngedig' yng nghyswllt llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaethau mewnol. Yn ôl diffiniad Grant Thornton, mae 'Sicrwydd Cyfyngedig' yn amlygu gwendidau mewn cynllunio neu gyflwyno rheolaethau allweddol, sy'n lleihau effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gan y rheolwyr gynlluniau gweithredu helaeth ar waith, a fydd yn gwella'r lefel sicrwydd yn y dyfodol os ydynt yn cael eu gweithredu'n amserol.

Cymeradwywyd cynllun archwilio mewnol newydd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2016, a ddatblygwyd gyda Mazars, gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ym mis Medi 2015.

### **Gwybodaeth reoli**

Gydol 2015, cyflwynwyd adroddiadau cerdyn sgorio cytbwys i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, sy'n cyflwyno gwybodaeth am berfformiad gweithredol ledled y sefydliad. Mae adroddiadau ar berfformiad wedi parhau yn y fformat safonol a gafodd ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn 2014. Mae'r fformat yn cyflwyno gwybodaeth am bedair

thema perfformiad i'r pwyllgorau a'r Cyngor: proses fewnol, gwasanaeth cwsmeriaid, cost ac adnoddau. Cyflwynir mesurau ar gyfer pob adran gan ddefnyddio system sgorio coch/melyn/gwyrdd i adrodd ar statws gwirioneddol.

Yn ystod 2015, mae gwaith wedi'i gyflawni i gydgrynhoi cynnydd a wnaed yn 2014 ac ymestyn cwmpas y gwaith i gynnwys sawl maes nad oeddent yn rhan o'r adroddiad gwreiddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn, gofynnodd y Cyngor am adolygiad o'r cerdyn sgorio cytbwys yn 2016 er mwyn gwella'r fformat a sicrhau bod y mesurau'n addas i'r diben o hyd, 18 mis ar ôl eu cyflwyno ac yn dilyn cyfnod o newid sefydliadol yn ystod 2015.

Mae cynnydd wedi parhau ar ddatblygu warws data gwybodaeth reoli, sef porth adrodd canolog ar gyfer llunio adroddiadau cyson ac ymgymryd â gwaith dadansoddi rheolaidd. Mae'r warws data wedi'i ehangu gydol y flwyddyn, ac erbyn hyn mae'n ffynhonnell gynhwysfawr ar gyfer adroddiadau Addasrwydd i Ymarfer ac adroddiadau mewnol ym meysydd y Gyfraith, Cofrestru a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol. Mae pecynnau adrodd misol safonol wedi'u creu i fodloni gofynion adrodd haenau gwahanol o reolwyr ym mhob un o'r meysydd hyn. Bwriedir ehangu'r gwasanaeth eto yn 2016 drwy ychwanegu data at y warws data gan adrannau eraill, a chyflwyno newidiadau i ddiwygio anghenion adrodd yn sgil cyflwyno archwilwyr achos.

## **Casgliad**

Yn 2015, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo strategaeth gorfforaethol dair blynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2016-2019, ac mae wedi cytuno ar gynllun busnes newydd ar gyfer 2016. Mae Fframwaith Rheoli Risg diwygiedig wedi'i gyflwyno sy'n gwella'r broses o nodi a rheoli risgiau strategol allweddol ac yn cysylltu â'r broses adrodd ar berfformiad. Mae prosesau cynllunio ac ymgynghori sylweddol wedi'u rhoi ar waith i baratoi ar gyfer cyflwyno archwilwyr achos fel rhan o'r broses Addasrwydd i Ymarfer yn 2015. Disgwylir i hyn arwain at arbedion sylweddol gwerth £2.0 miliwn y flwyddyn o 2017 ymlaen, a bydd proses 'sefyllfa sefydlog' wedi'i sicrhau o hynny ymlaen.

Ian Brack  
Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu  
9 Mehefin 2016

## **13. Cyfrifon 2015**

# 14. Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2015 sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig 1 i 23.

Wrth baratoi'r cyfrifon, defnyddiwyd fframwaith adrodd ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Adroddiad i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig yw hwn, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir yn unol â hynny gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud fel y gallwn hysbysu Aelodau'r Cyngor am y materion hynny sy'n ofynnol i ni hysbysu amdanynt mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir hynny gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am yr adroddiad hwn, nac am y farn sydd gennym, i unrhyw un heblaw'r Cyngor ac aelodau'r Cyngor fel corff.

## **Cyfrifoldebau unigol y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r archwilydd**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a mynegi barn ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio a Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

## **Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol**

Mae disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditscopeukprivate](http://www.frc.org.uk/auditscopeukprivate).

## **Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2015 ac o'i warged ar ddiwedd y flwyddyn honno;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor.

.....

haysmacintyre

Archwilydd Statudol

Llundain

Dyddiad:

Mae haysmacintyre yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn sgil adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

# 15. Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2015 o dan Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o'r Llif Arian, Datganiad o Newidiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Dâl a gafodd ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

## **Cyfrifoldebau unigol y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r archwilydd**

Fel yr esboniwyd yn fwy trylwyr yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i Brif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoir datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, cadarnhau ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Deintyddion 1984. Bu i mi gynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'm staff a minnau gydymffurfio a Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## **Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn ymwneud â chael gafael ar dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys datganiadau sy'n sylweddol anghywir, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenais yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi anghysondebau sylweddol a'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth i mi gwblhau'r archwiliad hwn. Os dof yn ymwybodol o unrhyw ddatganiadau anghywir neu anghysondebau sylweddol ymddangosiadol, rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Rhaid i mi gael gafael ar ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a nodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion y bwriadwyd hwy ar eu cyfer gan Senedd San Steffan a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## **Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob modd sylweddol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso yn unol â'r dibenion y bwriadodd Senedd San Steffan hwy, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## **Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2015 ac o'r gwarged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yr adeg honno;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a chyfarwyddiadau perthnasol y Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y ddeddf.

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Dâl i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984;
- mae'r wybodaeth a roddir yn adrannau Adolygiad Ariannol ac Adroddiad Cyfrifoldeb Cymdeithasol, Strwythur y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### **Materion yr wyf yn adrodd yn eu cylch trwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol yr adroddaf i chi amdanynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu nad oes mantolenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau na wnaeth fy staff ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad ar Dâl i'w harchwilio yn cyfateb i'r cofnodion cyfrifyddu a'r mantolenni; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

### **Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Sir Amyas C E Morse  
Comptroller and Auditor General  
National Audit Office  
157-197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain

Dyddiad

Aroddiad blynyddol a chyfrifon 2015

SW1W 9SP



# 16. Cyfrif incwm a gwariant

## Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2015

		2015 £'000	2014 £'000
<b>Income</b>	<b>Note</b>		
Fees	2	44,065	31,560
Overseas Registration Exam	3	1,828	1,565
Miscellaneous	3	52	15
<b>Total operating income</b>		<b>45,945</b>	<b>33,140</b>
<b>Expenditure</b>			
Staff costs	5	18,537	16,441
Legal and professional fees	6	13,699	10,552
Council and Committee meetings	7	9,953	8,232
Administration	8	3,370	3,531
Accommodation	9	727	674
Communications and Publications	10	399	534
<b>Total operating expenditure</b>		<b>46,685</b>	<b>39,964</b>
<b>(Deficit) after operational expenditure</b>		<b>(740)</b>	<b>(6,824)</b>
Adjustment to tax and social security costs		1,350	-
Investment income	4	367	508
Realised gains on sale of investments	14	258	30
<b>Surplus/(Deficit) for year after investment income and adjustment</b>		<b>1,235</b>	<b>(6,286)</b>
Taxation	11	27	(52)
<b>Retained surplus/(deficit) after taxation</b>		<b>1,262</b>	<b>(6,338)</b>
<b>Other comprehensive income/(expenditure)</b>			
<b>Items that will or may be reclassified to profit or loss</b>			
Unrealised (loss)/gains on investments	14	(530)	333
<b>Items that will not be reclassified to profit or loss</b>			
Actuarial gains/(loss) on pension scheme assets	19	3,582	(2,883)
<b>Total other comprehensive income/(expenditure)/income</b>		<b>3,052</b>	<b>(2,550)</b>
<b>Total comprehensive income/(expenditure) for the year</b>		<b>4,314</b>	<b>(8,888)</b>

All income and expenditure relates to continuing activities

### Note - Nodyn

#### Incwm

Ffioedd

Arholiad Cofrestru Tramor

Amrywiol

#### Cyfanswm incwm gweithredu

#### Gwariant

Costau staff

Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol

Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau

Gweinyddiaeth

Llety

Cyfathrebu a Chyhoeddiadau

**Cyfanswm gwariant gweithredu**

**(Diffyg) ar ôl gwariant gweithredu**

Addasu costau treth a nawdd cymdeithasol

Incwm buddsoddiadau

Enillion a wireddwyd o werthu buddsoddiadau

**Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn ar ôl incwm buddsoddiadau ac addasu**

Treth

**Gwarged/(diffyg) a gadwyd ar ôl treth**

**Incwm cyffredinol arall/(gwariant)**

**Eitemau a fydd neu a allai gael eu hailddosbarthu i elw neu golled**

(Colledion)/enillion ar fuddsoddiadau nas gwireddwyd

**Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled**

Enillion/(colledion) actiwaraid ar asedau cynllun pensiwn

**Cyfanswm incwm/(gwariant)/incwm cyffredinol arall am y flwyddyn**

**Cyfanswm incwm/(gwariant) cyffredinol am y flwyddyn**

Mae pob incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus

# 17. Datganiad o'r sefyllfa ariannol

## Ar 31 Rhagfyr 2015

		31 Rhag 2015 £'000	31 Rhag 2014 £'000
<b>Asedau anghyfredol:</b>	<b>Nodyn</b>		
Eiddo, offer a chyfarpar	12	11,011	6,910
Asedau anghyfyrrddadwy	13	801	995
Asedau ariannol – asedau ar gael i'w gwerthu	14	3,477	8,829
Darpariaeth ar gyfer asedau pensiwn	19	5,859	2,490
<b>Cyfanswm asedau anghyfredol</b>		<b>21,148</b>	<b>19,224</b>
<b>Asedau cyfredol:</b>			
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	< 1 bl 15	2,940	1,771
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	16	33,766	31,863
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>		<b>36,706</b>	<b>33,634</b>
<b>Cyfanswm asedau</b>		<b>57,854</b>	<b>52,858</b>
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Masnach a symiau taladwy eraill	<1bl 17	5,180	4,616
Rhwymedigaethau eraill	17	54	11
Incwm gohiriedig	17	35,548	35,180
Darpariaethau	18	-	-
Treth gorfforaeth	17	55	120
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>40,837</b>	<b>39,927</b>
<b>Asedau anghyfredol plws/llai asedau/rhwymedigaethau</b>		<b>17,017</b>	<b>12,931</b>
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol:</b>			
Darpariaethau	18	-	135
Symiau taladwy eraill	>1bl 17	-	23
Treth ohiriedig	17	148	218
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol</b>		<b>148</b>	<b>376</b>
<b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>		<b>16,869</b>	<b>12,555</b>
<b>Cronfeydd wrth gefn</b>			
Cronfa wrth gefn gyffredinol		10,113	8,638
Cronfa benswn wrth gefn		5,859	2,490
Enillion heb eu gwredu ar fuddsoddiadau wrth gefn		897	1,427
<b>Cyfanswm cronfeydd wrth gefn</b>		<b>16,869</b>	

William Moyes  
Cadeirydd

Ian Brack  
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# 18. Datganiad llif arian

## Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2015

	Note	2015 £'000	2014 £'000
<b>Cash flows from operating activities</b>			
(Deficit)/surplus from operating activities	I&E	610	(6,824)
Depreciation and amortisation		1,007	899
Loss on disposal of property, plant and equipment		160	43
Decrease/(increase) in trade and other receivables	15	(1,169)	(1,130)
Increase/(decrease) in trade payables and other liabilities	17	952	11,921
Pension reserve funding movements	19	213	(179)
Deferred tax	11		
Use of provisions	18	(135)	0
<b>Net cash inflow from operating activities</b>		<b>1,638</b>	<b>4,730</b>
<b>Cash flows from investing activities</b>			
Purchase of property, plant and equipment	12	(4,886)	(4,381)
Purchase of intangible assets	13	(215)	(266)
Proceeds from sale of assets		27	6
Proceeds from sale of financial assets	14	10,728	6,096
Purchase of financial assets	14	(5,648)	(1,298)
Investment income	4	367	508
<b>Net cash inflow/(outflow) from investing activities</b>		<b>373</b>	<b>665</b>
Tax		(108)	14
<b>Net increase in cash and cash equivalents in the period</b>		<b>1,903</b>	<b>5,409</b>
<b>Cash and cash equivalents at the beginning of the period</b>	16	<b>31,863</b>	<b>26,454</b>
<b>Cash and cash equivalents at the end of the period</b>	16	<b>33,766</b>	<b>31,863</b>
<b>Net increase in cash and cash equivalents</b>		<b>1,903</b>	<b>5,409</b>

Note – Nodyn

### Llif arian o weithgareddau gweithredu

(Diffyg)/gwarged o weithgareddau gweithredu

Dibrisiant ac amorteiddiad

Colled ar waredu eiddo, offer a chyfarpar

Lleihad/(cynnydd) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill 15 (1,130)

Cynnydd/(lleihad) mewn symiau taladwy masnach a rhwymedigaethau eraill

Symudiadau ariannu'r gronfa bensynau wrth gefn

Treth ohriedig

Defnydd o ddarpariaethau

### Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu

### Llif arian o weithgareddau buddsoddi

Prynu eiddo, offer a chyfarpar  
Prynu asedau anghyfyreddadwy  
Enillion o werthu asedau  
Enillion o werthu asedau ariannol  
Prynu asedau ariannol  
Incwm buddsoddi

**Arian Net mewnlif/(all-lif) o weithgareddau buddsoddi**

Treth

**Cynnydd net mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod**  
**Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod**  
**Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod**  
**Cynnydd net mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**

# 19. Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn

Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2015

		General Reserve	Pension Reserve	Unrealised Gains on Investment Reserve	Total Reserves
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balance at 31 December 2013</b>	<b>Note</b>	<b>15,155</b>	<b>5,194</b>	<b>1,094</b>	<b>21,443</b>
<b>Changes in reserves for 2014</b>					
Total comprehensive income for the year	I&E	(8,888)	-	-	(8,888)
Actuarial gain on pension scheme	19	2,883	(2,883)	-	-
Reserves transfer		(179)	179		-
Unrealised gains on investments	14	(333)		333	-
<b>Balance at 31 December 2014</b>		<b>8,638</b>	<b>2,490</b>	<b>1,427</b>	<b>12,555</b>
<b>Changes in reserves for 2015</b>					
Total comprehensive income for the year	I&E	4,314	-	-	4,314
Actuarial gain on pension scheme	19	(3,582)	3,582	-	-
Reserves transfer		213	(213)	-	-
Unrealised gains on investments	14	530		(530)	-
<b>Balance at 31 December 2015</b>		<b>10,113</b>	<b>5,859</b>	<b>897</b>	<b>16,869</b>

**General Reserve – Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn**

**Pension Reserve – Cronfa Bensiwn Wrth Gefn**

**Unrealised Gains on Investment Reserve – Enillion heb eu Gwireddu ar y Gronfa Fuddsoddiadau**

**Total Reserves – Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn**

**Note – Nodyn**

**Balans ar 31 Rhagfyr 2013**

**Newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn 2014**

Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn

Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn

Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn

Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau

**Balans ar 31 Rhagfyr 2014**

**Newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn 2015**

Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn

Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn

Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn

Aroddiad blynyddol a chyfrifon 2015

Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau

**Balans ar 31 Rhagfyr 2015**

## 20. Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1. Polisiâu Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol ac o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd ar ôl cynnwys buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad, yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE a chan ystyried egwyddorion a datgeliadau cyfrifyddu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae'r prif bolisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith yn gyson, ac fe'u nodir isod.

Sefydlwyd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan ddeddf Seneddol ym 1956 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig.

Lleolir prif swyddfa'r Cyngor yn 37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ. Cyflwynir datganiadau ariannol yn arian cyfred gweithredol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, mewn punnoedd.

#### 1.1 Fformat y cyfrifon

Gofynnir i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi ei gyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Rhaid i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban. Nodir diben statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yng nghyflwyniad yr Adroddiad Blynyddol.

#### 1.2 Safonau, diwygiadau a dehongliadau i safonau a gyhoeddwyd ond nas gweithredwyd eto

Mae'r Cyngor wedi asesu'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau canlynol sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto, ac mae wedi penderfynu peidio â'u mabwysiadu cyn y dyddiad pan fydd yn ofynnol eu mabwysiadu ar y sail na fyddai'r newidiadau'n cael unrhyw effaith, neu effaith ansylweddol, ar y cyfrifon hyn ac na fyddent yn darparu gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo'r darllynydd:

- IFRS 9 Offerynnau Ariannol – dyddiad gweithredu: cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2018, heb eu cymeradwyo eto gan yr UE. Mae IFRS 9 yn symleiddio'r gwaith o ddsbarthu a mesur asedau ariannol.
- IFRS 16 Lesoedd - dyddiad gweithredu: cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2019, heb eu cymeradwyo eto gan yr UE. Mae IFRS 16 yn pennu sut y bydd endid yn cydnabod, yn mesur, yn cyflwyno ac yn datgelu lesoedd. Mae'r safon yn darparu un model cyfrifyddu lesddeiliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliaid gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les oni bai bod tymor y les yn 12 mis neu'n llai neu fod gwerth yr ased gwaelodol yn isel.
- IFRS 15 Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid – dyddiad gweithredu: cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2018. Mae'r safon yn sefydlu'r egwyddorion y bydd endid yn gwneud cais i adrodd gwybodaeth ddefnyddiol am natur, swm, amseru ac ansicrwydd refeniw a llif arian sy'n deillio o gontract gyda chwsmer.
- Diwygio IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Anghyffyrddadwy – dyddiad gweithredu: cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2016. Mae'r



diwygiadau yn darparu canllawiau ychwanegol ar sut i gyfrifo dibrisiant neu amorteiddiad eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anghyffyrddadwy.

- Diwygiadau i IFRS 7 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau – dyddiad gweithredu: cyfnodau cyfrifyddu'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2016. Mae'r diwygiadau'n egluro perthnasedd gwneud iawn am ddatgeliadau i ddatganiadau ariannol interim cryno.
- Diwygiadau i IAS 7 Datganiad Llif Arian – dyddiad gweithredu: cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2017. Bwriad y diwygiadau yw egluro IAS 7 i wella gwybodaeth sy'n cael ei darparu i ddefnyddwyr datganiadau ariannol am weithgareddau cyllid endid.

Mae'r Cyngor yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol na'r canlyniadau ar gyfer 2014 a 2015.

### **1.3 Amcangyfrifon a phenderfyniadau cyfrifyddu critigol**

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'n rhaid i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wneud rhai amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau sy'n cael eu hadrodd yn y cyfrifon blynyddol.

Mae'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau yn ymwneud â digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol adeg gwneud y cyfryw amcangyfrifon a phenderfyniadau. Mae'n bosibl y bydd yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â'r perygl mwyaf sylweddol o achosi newid sylweddol i'r symiau o asedau a rhwymedigaethau i'w cario yn cael eu trafod isod:

#### **i) Buddion pensiwn**

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â phensiynau yn unol ag IAS 19 Buddion Gweithwyr Cyflogedig. Wrth benderfynu ar gost y pensiwn a rhwymedigaeth buddion diffiniedig cynllun pensiwn buddion diffiniedig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, defnyddir nifer o ragdybiaethau gan gynnwys y gyfradd ddisgownt, y twf mewn cyflogau, chwyddiant prisiau, enillion disgwylidig o fuddsoddiadau'r cynllun a chyfraddau marwolaeth. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu IAS 19 (2011) sy'n weithredol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2013. Mae'r rhagdybiaethau'n cael eu cytuno gyda'r actiwari cymwysedig a'u defnyddio i gyfrifo'r ddarpariaeth pensiwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 19 i'r cyfrifon.

#### **ii) Dibrisiant ac amorteiddiad**

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â dibrisiant ac amorteiddiad yn unol ag IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Anghyffyrddadwy. Y gost ddibrisio ac amorteiddio sy'n cydnabod y gostyngiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnodau y caiff yr ased ei ddefnyddio. Gwneir penderfyniadau ar sail amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr asedau, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd i adlewyrchu'r amgylchedd newidiol.

#### **iii) Darpariaethau**

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â darpariaethau yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn. Mae'r darpariaethau'n seiliedig ar amcangyfrifon o werth a bennir gan briswyr cymwysedig priodol.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y polisi cyfrifyddu ar y darpariaethau isod (nodyn 1.13) ac yn nodyn 18 i'r cyfrifon.

#### **1.4 Busnes Gweithredol**

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi adolygu incwm ffioedd rhagamcanol, a'r rhagolygon gweithrediadau a llif arian ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn credu ei bod hi'n briodol paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail busnes gweithredol.

#### **1.5 Eiddo, Offer, Cyfarpar ac Asedau Anghyfyrrdadwy**

Mae Asedau Diriaethol Sefydlog Anghyfredol yn cael eu nodi fel Eiddo, Offer a Chyfarpar o dan IAS 16. Lle bo hynny'n briodol, mae asedau meddalwedd a datblygu Technoleg Gwybodaeth wedi'u dosbarthu fel Asedau Anghyfyrrdadwy o dan IAS 38.

Cedwir asedau sy'n cael eu hadeiladu ar sail cost ar y dyddiad cyfrifyddu nes eu bod yn gallu bod yn weithredol, pan gânt eu trosglwyddo i'r dosbarth asedau anghyfredol y maent yn perthyn iddo.

Nodir eiddo, offer, cyfarpar ac asedau anghyfyrrdadwy ar sail cost, ar ôl ystyried gwerth dibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad.

Dim ond pan fo cost yr ased neu'r grŵp o asedau a gafaelwyd yn fwy na £1,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

#### **1.6 Dibrisiant ac Amorteiddiad**

Diben dibrisio ac amorteiddio yw dileu cost yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Mae cost dibrisio ac amorteiddio wedi'i chynnwys yn llinell gwariant gweinyddiaeth y cyfrif incwm a gwariant o dan incwm a gwariant cynhwysfawr. Mae'r oesau defnyddiol fel a ganlyn:

- (a) Dibrisir gwaith ailwampio cyfalaf a holl waith gwella'r lesddaliad yn 37/38 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ ac 13/15 Wimpole Mews dros weddill y brydles – 20 mlynedd neu 10 mlynedd neu, os yw'n llai na hynny, dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.
- (b) Dangosir oes asedau eraill isod.
  - dodrefn a ffitiadau - hyd at 10 mlynedd
  - offer a chyfarpar – hyd at ac yn cynnwys 25 mlynedd
  - cyfarpar TG – hyd at 4 blynedd
  - meddalwedd TG, trwyddedau a sicrwydd meddalwedd – hyd at 5 mlynedd

Adolygir cyfraddau dibrisio yn rheolaidd i gymharu oes wirioneddol asedau â chyfraddau'r polisi cyfrifyddu.

## 1.7 Lleihad

Ar ddyddiad pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn adolygu symiau cario ei asedau i bennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi lleihau mewn gwerth. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased er mwyn pennu graddfa'r colledion lleihad. Caiff colledion lleihad eu cyfrif yn y datganiad incwm a gwariant ar unwaith.

Pan fo cynnydd dilynol yn swm adferadwy ased, yn sgil newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm adferadwy, mae'n cael ei ystyried fel gwrthdroad o'r colledion lleihad blaenorol ac yn cael ei gydnabod i'r un graddau â swm cario'r asedau a fyddai wedi'i bennu (gan ystyried amorteiddiad a dibrisiant) pe na bai colledion lleihad wedi'u cydnabod. Cydnabyddir y gwrthdroad yn y datganiad incwm a gwariant ar unwaith.

## 1.8 Gwariant

Cyfrifir gwariant ar sail cronïadau ar ôl i'r nwyddau neu'r gwasanaeth gael eu derbyn neu eu cyflawni. Caiff TAW anadferadwy ei chynnwys gyda'r eitem o wariant y mae'n berthnasol iddi.

## 1.9 Incwm

Cyfrifir pob incwm pan fo sicrwydd digonol ynghylch hawl, swm a derbyn.

Mae'r holl ffioedd ar gyfer y cyfnod cofrestru gan ddeintyddion yn cael eu gohirio tan ddechrau'r cyfnod cofrestru y mae'r ffioedd yn ymwneud ag ef. 1 Ionawr i 31 Rhagfyr yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion.

Cydnabyddir yr holl ffioedd ar gyfer y cyfnod cofrestru gan Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol yn llawn yn y flwyddyn ariannol pan dderbynnir yr incwm. 1 Awst i 31 Gorffennaf yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol.

Cydnabyddir ffioedd a dderbynnir mewn perthynas ag Arholiadau Cofrestru Tramor pan fo'r arholiadau'n cael eu sefyll.

Cydnabyddir ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau cysylltiedig.

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau pan fo difidendau neu log yn ddyledus ac fe'i cofnodir fel swm sy'n cynnwys y dreth adferadwy.

## 1.10 Prydlesi ariannol

Adolygir telerau holl brydlesi'r Cyngor a lle mae manteision a pheryglon perchnogaeth yn nwylo'r Cyngor, ystyrir prydlesi yn brydlesi ariannol. Mae gwerthoedd cyfalaf prydlesi ariannol, ynghyd â gwerth cyfredol ad-daliadau cyfalaf yn y dyfodol yn cael eu nodi fel asedau a rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Caiff prydlesi ar wahân i brydlesi ariannol eu nodi fel prydlesi gweithredol. Caiff prydlesi gweithredol eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail linol dros dymor y brydles, gan ystyried unrhyw gymhellion prydles yn unol â thelerau IAS 17.

Mae'r Cyngor yn adolygu pob contract gwasanaeth hefyd i bennu a yw'r contractau'n cynnwys prydles ariannol o dan delerau IAS 17 fel y'u dehonglir gan IFRIC 4.

### 1.11 Trethu

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau allanol o incwm yn unig.

Yn hanesyddol, incwm o fuddsoddiadau oedd hyn.

Cydnabyddir treth ohiriedig ar bob gwahaniaeth trethadwy dros dro. Fodd bynnag, ni ddarperir treth ohiriedig pan gydnabyddir ased neu rwymedigaeth yn y lle cyntaf oni bai bod y trafodyn cysylltiedig yn effeithio ar dreth neu elw cyfrifo. Hefyd, cydnabyddir ased treth ohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro i'w ddiwynnu i'r graddau ei bod yn debygol y bydd yr elw trethadwy ar gael ac y gellir defnyddio'r gwahaniaeth dros dro i'w ddiwynnu yn ei erbyn. Mesurir asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yng nghyfnod gwireddu'r ased neu pan gaiff y rhwymedigaeth ei setlo. Mae'r mesuriad yn seiliedig hefyd ar y canlyniadau treth o adennill neu setlo swm cario asedau a rhwymedigaethau. Cydnabyddir newidiadau mewn asedau neu rwymedigaethau treth ohiriedig fel elfen o gostau treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

### 1.12 Cynlluniau Pensiwn

Mae'r Cyngor yn gweithredu tri chynllun pensiwn yn yr un ymddiriedolaeth – Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae asedau'r cynlluniau yn cael eu cadw ar wahân i asedau'r Cyngor ac maent yn cael eu buddsoddi yn unol â'r disgrifiad yn nodyn 19.

**Adran Cyfraniadau Diffiniedig 2014:** Sefydlwyd yr adran hon i'w gweithredu o 1 Chwefror 2014 ymlaen, gan ystyried diwygiadau i bensiynau yn sgil y system gofrestru awtomatig. Erbyn hyn, y cynllun hwn yw'r prif gynllun pensiwn ar gyfer gweithwyr cyflogedig. Pennwyd cyfraniadau fel canran o gyflogau pensiynadwy, gyda chyfraniad y cyflogwr wedi'i bennu fel uchafswm o 4% o gyflog pensiynadwy yr aelod ac yn codi i uchafswm o 10% o gyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2015 ymlaen. Caiff y cyfraniadau eu cynnwys o dan y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

**Adran Buddion Diffiniedig:** Cafodd yr adran hon ei chau i weithwyr newydd a gafodd gynnig swydd ar ôl 31 Rhagfyr 2014, a bydd ar gau i'r rhai newydd sy'n ymuno ar ôl 1 Gorffennaf 2016. Caiff costau gwasanaeth cyfredol y cynllun pensiwn buddion diffiniedig a net costau llog y cynllun a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn eu cynnwys o dan 'gostau pensiwn' y cyfrif incwm a gwariant. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn syth o fewn 'incwm cynhwysfawr arall'.

Mesurir asedau'r cynllun buddion diffiniedig yn ôl gwerth teg ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraidd ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau a'u disgowntio ar gyfradd sy'n gyfwerth â chyfradd adennill gyfredol bond corfforaethol o safon uchel sydd â chyfnod tebyg i rhwymedigaethau'r cynllun. Nodir ased neu rwymedigaeth y buddion diffiniedig terfynol ar wahân yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

**Adran 'atodol' cyfraniadau diffiniedig:** Cafodd yr adran hon ei chau i'r rhai newydd a oedd yn ymuno ar ôl 1 Ebrill 2014. Mae cyfraniadau'n wirfoddol a bydd y Cyngor yn gwneud

cyfraniadau cyfatebol o hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy. Caiff y cyfraniadau eu cynnwys o dan y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

### 1.13 Asedau Ariannol

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl asedau ariannol naill ai fel 'asedau ariannol am werth teg drwy elw neu golled' neu fel 'asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu', gan ddibynnu ar ddiben yr ased adeg ei gaffael. Ar hyn o bryd, dim ond yr asedau canlynol am werth teg sydd gan y Cyngor, gyda symudiad drwy incwm cynhwysfawr arall:

**Buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu:** mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau o warantau rhestredig, gwarantau llog sefydlog, ecwitiau ac ymddiriedolaeth unedol sy'n gronfa a reolir ac yn cynnwys portffolio cymysg o warantau rhestredig ac adneuron arian parod. Caiff y rhain eu trin fel buddsoddiadau anghyfredol sydd ar gael i'w gwerthu a'u cynnwys ar sail gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y pris cynnig terfynol a ddyfynnwyd ar y dyddiadau cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion heb eu gwireddu sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth y farchnad yn cael eu cynnwys o fewn incwm cynhwysfawr arall, ac yn cael eu rhoi yn y gronfa ailbriso buddsoddiadau. Wrth eu gwaredu, mae'r cynnydd neu'r golled gronnu a gydnabuwyd yn flaenorol yn y cronfeydd wrth gefn yn cael ei ailddosbarthu i'r cyfrif incwm a gwariant.

**Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod:** mae'r rhain yn cynnwys arian mewn llaw, adneuron a gaiff eu dal ar gais gyda banciau.

### Rhwymedigaethau ariannol

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl rwymedigaethau ariannol yn rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled. Isod, nodir y mathau o rwymedigaethau o fewn y categori, gan ddibynnu ar y diben y cafwyd y rhwymedigaeth ar ei gyfer.

**Masnach a symiau taladwy eraill:** mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna'u cario am werth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio. Mae'r rhain yn deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 17.

**Darpariaethau:** cydnabyddir darpariaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol pan fo gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol gyfredol yn sgil digwyddiad yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd angen all-lif o fanteision economaidd i setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir sicrhau amcangyfrif dibynadwy o'r all-lif o fanteision economaidd.

**Costau Ymddeoliad Cynnar:** Roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn talu costau ychwanegol buddion y tu hwnt i'r cynllun buddion diffiniedig arferol i weithiwr a ymddeolodd yn gynnar ar sail feddygol. Talwyd swm o arian bob blwyddyn, yn dibynnu ar yr amodau, i'r gweithiwr am y cyfnod rhwng gadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Cyrhaeddodd y gweithiwr oedran ymddeol yn 2014 a thalwyd gweddill y ddarpariaeth i ymddiriedolwyr y pensiwn i brynu blwydd-dal.

**(ii) Dadfeiliadau:** Roedd darpariaeth 2014 yn ymwneud â chydymffurfio â'r cymal prydes ar gyfer yr ail lawr, 44 Baker Street, Llundain W1U 7AL a oedd ym meddiant y Cyngor hyd at 22

Rhagfyr 2015. Cyfrifwyd darpariaethau dadfeiliadau'r Cyngor ar sail amcangyfrif o gost ysgwyddo gwariant y dyfodol, er mwyn setlo rhwymedigaethau mewn perthynas â chymalau prydles. Eleni, cyflawnwyd yr ymrwymadau hyn yn llawn o'r ddarpariaeth. Cafodd gweddill y ddarpariaeth ei rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant.

#### **1.14 Cronfeydd wrth gefn**

Mae cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y canlynol:

##### **Cronfeydd cyffredinol wrth gefn**

Yn cynrychioli'r canlyniadau argadwedig ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraid ar asedau a/neu rwymedigaethau cynllun pensiwn ac enillion/colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiad.

##### **Cronfa bensiwn wrth gefn**

Yn cynrychioli enillion a cholledion actiwaraid ar asedau'r cynllun pensiwn sy'n deillio o ailbriso darpariaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ased/rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddion diffiniedig.

##### **Enillion heb eu gwireddu ar y gronfa fuddsoddiadau wrth gefn**

Yn cynrychioli enillion a cholledion heb eu gwireddu sy'n deillio o ailbriso buddsoddiadau dros eu cost hanesyddol.

#### **1.15 Offerynnau Ariannol**

Amlinellir manylion y categorïau amrywiol o asedau ariannol yn nodyn 14 i nodyn 16. Amlinellir y categorïau amrywiol o rwymedigaethau ariannol yn nodiadau 17 ac 18.

##### **Risg Credyd**

Bod yn agored i risg credyd yw'r risg y bydd un parti i offeryn ariannol yn methu cyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i'r parti arall. Ni ystyrir bod hyn yn arwyddocaol. Nid yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ei hun ac nid yw'n agored i ddyled allanol. Mae'n defnyddio mesurau lliniaru risg amrywiol, gan gynnwys asesiadau statws credyd i asesu risg credyd gwrth-bartïon, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

##### **Perygl hylifedd**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ar hyn o bryd ac mae'n dibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt ym mis Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst.

Mae lefelau cyllid arian parod yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbyniadau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fo deintyddion yn talu eu ffi gadw flynyddol ac ym mis Gorffennaf, pan fo gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd cadw blynyddol. Mae gwariant y Cyngor wedi'i rannu'n gyfartal gydol y flwyddyn. Felly, nid yw'r Cyngor yn credu ei fod yn agored iawn i berygl hylifedd.

##### **Risg arian cyfred**

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol yn cael eu trafod mewn Sterling, felly nid ydynt yn agored i risg arian cyfred.

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol bolisi cronfeydd wrth gefn. Yn sgil cylchoedd adnewyddu cofrestriadau a dulliau talu ffioedd cofrestru, mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol swm sylweddol o arian mewn cyfrifon cadw tymor byr i dalu'r gwariant a ddisgwylir dros y cyfnod talu.

### **Risg cyfraddau llog**

Mae gweithwyr proffesiynol deintyddol yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae cronfeydd gwarged yn cael eu cadw fel a ganlyn:

